

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau 23 Mai 2024
Amser y cyfarfod:	09:00 – 11:15
Lleoliad:	Microsoft Teams

Amser	Eitem
09:00	Eitem 1. Agor y Cyfarfod
5 munud	<ul style="list-style-type: none">CroesoDatganiadau o fuddiantEgluro'r dull o gynnal y cyfarfod <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant</p>
09:05	Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu
5 munud	<p>2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 21 Mawrth</p> <p>2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus</p> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu</p>
09:10	Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd
5 munud	<p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd</p>
09:15	Eitem 4. Adroddiad y Prif Weithredwr
15 munud	<p>Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p> <p>Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol</p>

Cyfeirnod y Papur: 24-05-B01

9:30

Eitem 5. Diweddaru Adroddiadau Pwyllgorau a Fforymau

20 munud

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 14 Mai
- Pwyllgor Cyllid – 25 Ebrill
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B02
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 18 Ebrill
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B03
- Pwyllgor Ystad Tir
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

- Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B04
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B05
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B06
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru
Cyfeirnod y Papur: 24-05-B07

Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, o fewn a thu allan a chyfarfodydd a gynhaliwyd

9:50

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

15 munud

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y Papur: 24-05-B08

10:05

Eitem 7. Strategaeth Hamdden

45 munud

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynwyr: Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Dawn Thompson, Tîm Cynllunio Hamdden Ystadau

Crynodeb: Cymeradwyo'r Strategaeth Hamdden

Cyfeirnod y Papur: 24-05-B09

10:50 **Eitem 8. Unrhyw Fater Arall**

5 munud

10:55 **Diwedd y Cyfarfod**

10:55 **Holi ac Ateb Cyhoeddus**

20 munud

11:15 **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus**

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Lleoliad:	CP2, Caerdydd a Microsoft Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Geraint Davies Yr Athro Peter Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Kath Palmer Helen Pittaway (Teams) Dr Rosie Plummer
Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Victoria Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio, yn dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Mynychwyr yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac a Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid, Eitem 6 Kirsten Hughes, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Teams) Eitem 7 Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Teams), Eitem 7

Sylwedyddion CNC yn bresennol:	David Letellier, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru Kate Evans, Rheolwr, Materion Cyhoeddus / Ysgrifennydd Personol i'r Prif Weithredwr Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol
Sylwedyddion Cyhoeddus yn bresennol:	Colin Barnett Gareth Wardell Jim Ralph Margaret Young Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Ymddiheuriadau:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Bhuvaneshwari Marrisudi, Prentis Bwrdd
Ysgrifenyddiaeth:	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Jocelyn Benger, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Datganiadau o fuddiant:	<ul style="list-style-type: none"> • Dr Rosie Plummer – Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – cysylltiadau eang â CNC gan gynnwys cynllunio, dynodi tirwedd ac amddiffyniadau gan gynnwys afonydd ACA, parthau Morol, derbynnydd grantiau amrywiol a chydweithredwr; Ymddiriedolwr Plantlife – rhyngweithio eang gan gynnwys cyfrannu at brosiect Natur am Byth a derbynnydd cyllid Rhwydweithiau Natur Glaswelltiroedd Gwydn • Yr Athro Steve Ormerod – Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth ac Aelod o'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol; Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod; Is-lywydd yr RSPB; Aelod o Ymddiriedolaethau Natur amrywiol • Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Aelod Cyswllt o Ganolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran • Yr Athro Calvin Jones – Ysgol Busnes Caerdydd a gyflogir gan Lywodraeth Cymru i edrych ar fodolau ariannu ar gyfer morlynnoedd llanw posibl yng Nghymru • Yr Athro Rhys Jones – rhan o brosiect ymchwil wedi'i ariannu gyda Phrifysgol Coventry a fydd yn archwilio datblygiad a gweithrediad cynnar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy • Mark McKenna – Down to Earth, datganiad o ddiddordeb yng nghynllun Caernws

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, a aeth ati i groesawu pawb ac egluro trefn y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o ddi-ddordeb ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

Eitem 2. Adolygu Cofnodion cyfarfod 2 Chwefror

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 2 Chwefror.

Eitem 2. Adolygu'r Log Gweithredu

3. Adolygwyd a nodwyd y Log Gweithredu.

Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gyfarfod diweddar Uwchgyhadledd Ansawdd Dŵr y Prif Weinidog. Adroddwyd cynnydd sylweddol ar y rhestr weithredu, a nododd y Prif Weinidog y cynnydd calonogol. Disgrifiwyd awyrgylch da, cydweithredol y cyfarfod gyda'r mynychwyr yn rhannu'r un genhadaeth ar faterion ansawdd dŵr. Roedd Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn enghraifft dda o'r dull partneriaeth.
5. Nodwyd etholiad y Prif Weinidog newydd. Ar ran y Bwrdd, estynnwyd llongyfarchiadau i Vaughan Gething ar ei benodiad, a chynigiwyd diolch a dymuniadau da i Mark Drakeford, sy'n gadael y swydd.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

6. Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau yn ychwanegol at yr Adroddiad ysgrifenedig. Byddai CNC yn ysgrifennu at y Prif Weinidog newydd, ynghyd ag unrhyw weinidogion newydd neu sy'n gadael.
7. Cafwyd diweddariad ar effeithiau'r cyfnod o dywydd gwlyb diweddar. Roedd cyfres o gyfnodau o law trwm wedi taro'r De-orllewin yn ychwanegol at benllanw'r flwyddyn. Tynnwyd sylw at effaith y gorllanw ar gymunedau yng Nghaerdydd. Roedd CNC wedi cyflawni ei rôl rhybudd a hysbysu arferol, a staff wedi bod allan yn cynorthwyo cymunedau ar lawr gwlad. Nodwyd asedau a oedd wedi dioddef o ddigwyddiadau tywydd blaenorol a'r gwaith angenrheidiol oedd angen ei wneud. Roedd rhagolygon y tywydd yn gwella er bod y ddaear yn ddirlawn.
8. Cwblhawyd proses recriwtio Pennaeth TGCh Dros Dro newydd – roedd disgwyl i Matt Harrington ddechrau gyda CNC yr wythnos ganlynol. Byddai Martin Parkinson, Pennaeth Trawsnewid Busnes, yn ymddeol ym mis Mehefin a nodwyd ei gyfraniad i CNC dros flynyddoedd lawer.

9. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr Adroddiad llafar ac ysgrifenedig. Nodwyd Diweddariad Gorfodi Chwarter 3, ac amlygwyd trafodaethau strategol y diwrnod blaenorol ar leihau llygredd. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm lleol am eu hamser yn hysbysu'r Bwrdd am y materion cymhleth sy'n ymwneud â gwastraff a llygredd o amgylch ardal Caerdydd.
10. Nodwyd y diweddariad ar y prosiect 'Multi-Utility Service Transit' (MUST). Dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n ddiddorol gweld prosiect MUST yn datblygu ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig ym maes cynllunio. Amlygwyd trafodaethau strategol y Bwrdd ar fater datgarboneiddio yng nghyfarfod mis Medi 2023, a oedd yn cynnwys elfennau o'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol i fwrw ymlaen â materion. Cydnabuwyd y sgysiau ehangach ar gyfer CNC ac adrannau cynllunio. Fe wnaeth yr Athro Rhys Jones, fel Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, ddiweddarau'r Bwrdd ar drafodaethau'r Fforwm, gan nodi'r heriau sy'n wynebu ffermwyr wrth ymwneud â'r broses gynllunio wrth weithio ar brosiectau llai.
11. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr heriau sy'n wynebu CNC ac Awdurdodau Lleol wrth ymateb i'r sefyllfa gynllunio ddynamig a heriol ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a phrosiectau ynni ar lefel y gymuned. Cydnabuwyd y pwysau ariannol ynghyd â'r her o safbwynt sgiliau a phrofiad. Prosiect MUST oedd y prosiect mawr cyntaf lle'r oedd CNC wedi rhoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith, a byddai'n datblygu'r hyn a ddysgwyd. Diweddarodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y Bwrdd ar gynhadledd ddiweddar Empower Cymru a drefnwyd gan Diwydiant Sero Net Cymru. Daeth nifer fawr o bobl i'r digwyddiad a'i nod oedd dod â'r hyn a ddysgwyd o bob rhan o Gymru ynghyd ynghylch sut y gallai'r sector cyhoeddus a'r sector preifat gydweithio'n fwyaf effeithiol.
12. Nodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Datganiad Gweinidogol ar y cyd ar Ffermio yng Nghymru. Nododd aelodau'r Bwrdd yr heriau ariannol i CNC a'r diwydiant amaethyddol yn sgil cylch gwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fe wnaeth y Prif Weithredwr ddiweddarau'r Bwrdd ar drafodaethau parhaus am y Cynllun. Dosbarthwyd ymateb CNC i'r ymgynghoriad i'r Bwrdd er gwybodaeth, a nodwyd mai pryder allweddol oedd diffyg elfennau pwrpasol ar gyfer safleoedd gwarchoddedig. Cydnabuwyd bod y ddadl ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i pholareiddio, ond bod blaenoriaethau cyffredin, sef diogelu a chefnogi'r amgylchedd a chymunedau yng Nghymru.
13. Diweddarodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y Bwrdd ar waith parhaus y grwpiau sy'n ymwneud ag Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y grwpiau unigol wedi cyflwyno eu hadroddiadau i'r grŵp craidd erbyn hyn, gydag argymhellion i fwrw ymlaen, a fyddai ar gael i'r cyhoedd. Roedden nhw'n argymhell meysydd gwaith sylweddol i gyrraedd y targedau 30x30. Byddai'r elfennau allweddol yn cael eu cyflwyno gerbron sesiwn strategol y Bwrdd ym mis Mai.

Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau Pwyllgorau a Fforymau

14. Cyflwynodd Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth. Cafwyd diweddariad gan Archwilio Cymru. Estynnwyd diolch i Julie Rees o Archwilio Cymru, yr

oedd ei thymor fel archwilydd CNC wedi dod i ben. Derbyniodd ARAC ddiweddariad Cyllid hefyd a chlywyd y byddai proses lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cael ei gohirio tan fis Medi. Cymeradwywyd fformat yr Adroddiad Blynyddol ond gofynnodd ARAC am ddull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau wrth symud ymlaen. Craffwyd ar yr Adroddiad Rheoli Risg chwarterol. Cydnabuwyd bod y daith ar reoli risg yn parhau a nodwyd sesiwn ddiweddar y Bwrdd ar ddatganiadau parodrwydd i dderbyn risg. Nododd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Chwarterol fod y Cynllun Archwilio Mewnol ar y trywydd iawn ar gyfer 2023-24 ac adolygwyd y Cynllun Archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd pedwar Adroddiad Archwilio Mewnol; tri yn cynnig barn gymedrol ac roedd un yn cynnig barn sylweddol.

15. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth y wybodaeth ddiweddaraf am waith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai gydag ymweliad maes yn ardal Caerdydd neu Gasnewydd.
16. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror a 5 Mawrth. Ystyriwyd y papur fel un a ddarllenwyd. Roedd y naill gyfarfod a'r llall wedi ystyried cymeradwyaeth ariannol. Prif ffocws y trafodaethau oedd yr alldro ar gyfer eleni a'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cymeradwywyd yr Adolygiad Blynyddol o Daliadau. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch symleiddio'r broses. Trafodwyd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r mesurau ar gyfer Rhaglen CNC2030. Craffwyd ar yr adolygiad annibynnol o'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd. Cafwyd cyflwyniad ar fuddsoddiadau'r gronfa bensiwn. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid ddiddymu cymeradwyaeth gynharach ar y bartneriaeth TGCh ar y sail bod barn gyfreithiol wedi'i derbyn ar hyn bellach.
17. Cyflwynodd yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr. Cafwyd cyfarfod cadarnhaol a fynychwyd gyda Geraint Davies ar Ardal Ddraenio Mewnol Dysynni gyda Mabon ap Gwynfor, A. Diolchwyd i Mabon ap Gwynfor, gan nodi ei gefnogaeth adeiladol i flaenoriaethau strategol CNC. Roedd Geraint Davies wedi cyfarfod â phartion â diddordeb ar arglawdd Tan Lan hefyd. Byddai cyfarfod nesa'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Ebrill yn ystyried sut i reoli gwariant cyfalaf llifogydd yn well cyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid. Cytunwyd y dylai Helen Pittaway fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ymuno â chyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Ebrill.

GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i rannu'r gwahoddiad â chyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Ebrill gyda Helen Pittaway

18. Cyflwynodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Cadarnhawyd dull Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) gyda Chymdeithas y Pridd yn cael ei hailbenodi fel asesydd CNC. Roedd y Pwyllgor yn dal i boeni am sefyllfa fregus CNC oherwydd y cynnydd cyfyngedig yn y broses Gwerthu Pren Amgen a'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren. Cydnabuwyd bod nifer o

resymau dros y problemau gyda chynnydd, ac roedd disgwyl am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar y Strategaeth.

19. Diweddarodd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid y Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Diolchwyd i'r timau am sicrhau bod y cyfarfod yn effeithiol gyda'r nifer fawr o eitemau wedi'u trafod. Craffwyd ar Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Ch3 a'i gymeradwyo. Derbyniwyd adroddiad da gan y Rhaglen Trawsnewid Pobl ac ystyriodd y Pwyllgor sut y gallai hyn integreiddio'n well â CNC2030. Trafodwyd goblygiadau Cynllun Busnes 2024/25 i'r tîm Pobl a Chwsmeriaid. Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-24 a'r Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau i'w gyhoeddi.
20. Cyflwynodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gyfarfod 22 Chwefror. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Nodwyd goblygiadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar safleoedd gwarchodedig. Roedd disgwyl am ganlyniad yr ymgynghoriad ond pwysleisiwyd arwyddocâd y Cynllun ar gyfer rheoli safleoedd gwarchodedig ar gyfer perchnogion tir a CNC yn y dyfodol. Cydnabuwyd gofynion adnoddau CNC a thirfeddianwyr sy'n deillio o'r Cynllun, ynghyd â gofynion heriol targedau bioamrywiaeth 30x30 a chytundebau rheoli tir. Derbyniodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ddiweddariad ar y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig a'r posibilrwydd o ddynodiadau pellach; cydnabuwyd y byddai cyfyngiadau adnoddau yn effeithio ar allu CNC i'w cyflawni a'u rheoli. Cyflwynwyd y gwaith ar afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) i'r Pwyllgor. Croesawyd manylion am gydweithio yn y maes hwn. Nodwyd hefyd y goblygiadau sylweddol ar gyfer swyddogaethau cynllunio yn ymwneud ag afonydd a'r cysylltiadau â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
21. Bu aelodau'r bwrdd yn trafod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a llais CNC ar y goblygiadau o ran adnoddau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod hyn wedi cael ei gydnabod yn yr ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a dywedodd wrth y Bwrdd y byddai'r cyllid i ffermwyr a chyrrff sy'n rhoi cymorth yn rhan allweddol o gam nesaf y trafodaethau. Roedd gwaith yn digwydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i CNC, gyda gwaith cyfochrog yn mynd rhagddo ar ei weithredu a'r gofynion ar gyfer hyn. Nodwyd ymrwymiad y DU i fframwaith bioamrywiaeth byd-eang a chydnabuwyd yr heriau ariannol a deddfwriaethol i gyflawni hyn.
22. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Cyfarfu cyfarfod o Is-grŵp y Fforwm ar Lygredd Amaethyddol â Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i drafod cynlluniau monitro. Parhaodd sgysiau ar y ffyrdd i barhau i symud ymlaen i greu'r strwythur a fyddai'n fwyaf effeithlon.
23. Diweddarodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru y Bwrdd. Byddai'r Fforwm Pysgodfeydd yn cyfarfod yr wythnos nesaf, a byddai'r tîm Pysgodfeydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar salmonidau mudol. Nodwyd cyd-gyfarfod Fforwm Rheoli Dŵr Cymru gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru. Tynnwyd sylw at y rhaglen monitro dŵr. Eglurwyd y byddai'n

bwysig dal ati i fonitro, wrth ddatblygu cynllun effeithlon ac effeithiol ar gyfer monitro newid. Amlygwyd ansawdd dŵr daear hefyd a disgrifiwyd y problemau'n ymwneud â hyn.

24. Rhoddodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd. Roedd y Fforwm wedi cyfarfod ar 5 Mawrth a chafwyd diweddariad ar y Strategaeth Hamdden. Derbyniwyd diweddariad gan yr is-grŵp ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd, er mwyn i aelodau'r Fforwm glywed a mynegi eu pryderon. Roedd cais am aelodaeth newydd dan ystyriaeth.

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

25. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r papur, gan nodi mai'r sefyllfa ddiwedd mis Tachwedd oedd yn yr adroddiad. Roedd y Tîm Gweithredol wedi craffu arno, a'r Pwyllgor Cyllid hefyd ar 5 Mawrth. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi cymeradwyo'r newid i'r rhagolwg a'r taliad i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF). Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r gymeradwyaeth. Roedd pethau wedi bod yn symud yn gyflym. Ddechrau Chwefror, dyrannodd Llywodraeth Cymru £2m arall o Refeniw, £4m o gyfalaf, a £7m i'r Gronfa Bensiwn. Byddai'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn oddeutu £285m. Bu cynnydd mewn incwm pren, yn dilyn perfformiad cryf ym mis Chwefror, ac roedd gwared bychan yn debygol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Pwyllgor Cyllid ar sut y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio. Byddai'r rhan fwyaf o'r cyfalaf ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd a chyfran yn cael ei dychwelyd i Gronfeydd Dŵr. Roedd y gwaith ar y cronïadau diwedd blwyddyn yn mynd rhagddo ond roedd y flwyddyn yn debygol o fod o fewn y gyllideb.

26. Diolchodd aelodau'r Bwrdd i'r tîm Cyllid am eu gwaith caled, gan gydnabod y cyflawniad o sicrhau bod y sefyllfa ariannol o fewn y gyllideb, yn enwedig dan yr amgylchiadau ariannol heriol. Cydnabuwyd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol iawn, a chynigiwyd diolch i'r Gweinidog a'r swyddogion.

27. Codwyd trafodaethau blaenorol y Bwrdd ynghylch a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl. Nodwyd y byddai adolygiad yn cael ei gynnal unwaith y bydd data blwyddyn lawn wedi ei dderbyn.

28. Nododd y Bwrdd gymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid i dalu £6.894m i gronfa bensiwn EAPF.

29. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £270.2m i £272.8m a nododd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024.

NODWYD: Cymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid i dalu £6.894m i gronfa bensiwn EAPF

CYMERADWYWYD: Y newid i'r rhagolwg diweddaraf o £270.2m i £272.8m

Eitem 7. Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Chwarter 3 y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 3

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

30. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Chwarter 3 (Ch3) y Cynllun Busnes i'r Bwrdd. Adroddwyd statws Coch Oren Gwyrdd y mesurau fel a ganlyn: 14 Gwyrdd, 8 Oren, 0 Coch. Cyfeiriodd dau o'r mesurau Oren yn Ch3 at broblemau adnoddau fel ffactor ond gan symud i ganlyniadau diwedd y flwyddyn, roedd disgwyl mwy. Rhannwyd map gwres o'r rhagfynegiadau diwedd blwyddyn. Disgrifiwyd y problemau Oren fel 'Rheoli rhaglenni a chyfrannu atynt i fynd i'r afael â chynefinoedd ledled Cymru a'u hadfer', a 'Creu ardal o goetir newydd ar y tir yn ein gofal'. Roedd disgwyl i'r rhain fod yn wyrdd ac oren yn y drefn honno ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfeiriwyd at broblemau adnoddau a phroblemau gyda'r systemau adrodd ar y mesur 'Cyflwyno rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol' ac er ei fod yn wyrdd ar hyn o bryd, roedd disgwyl iddo fod yn Oren erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y mesur 'Ymateb i ddigwyddiadau a gategoreiddiwyd yn wreiddiol fel 'Uchel' o fewn 4 awr' wedi newid o oren i wyrdd bellach yn Ch2.
31. Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Mewnol ar gyfer Ch3. Adroddwyd am fesurau fel: 6 Gwyrdd, 3 Amber, 1 Coch. Roedd y mesur coch yr un fath â Ch2 'Monitro iechyd a diogelwch yn weithredol'. Roedd disgwyl iddo fod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn rhan bwysig o'r sicrwydd ac roedd wedi cael ei drafod yn y Fforwm Llesiant, Iechyd a Diogelwch. Roedd y mesur cyfraddau absenoldeb staff yn dal i gael ei adolygu, ond rhagwelwyd y byddai'n cael ei adrodd o'r chwarter nesaf ymlaen.
32. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Nodwyd y mesur Monitro Iechyd a Diogelwch yn weithredol, a holwyd beth oedd yn cael ei wneud i gyflawni sgôr Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Eglurwyd bod llawer o waith yn digwydd gyda thimau, gan gynnwys gweminarau a sesiynau hyfforddi i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gofynion. Nodwyd mai problem gofnodi yn y system yn hytrach na phroblem ddiwylliannol oedd hon. Sicrhawyd aelodau'r Bwrdd y byddai'r mesurau Oren yn cael eu cyflawni, er bod hyn yn debygol o fod yn gymysgedd o gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn a Ch1 a Ch2 y flwyddyn nesaf.
33. Nodwyd cynnwys y sesiwn drafod strategol ar bwysigrwydd esbonio sut roedd CNC yn gwneud pethau'n wahanol, megis y dull o ailblannu a symud oddi wrth y defnydd o gemegau ar yr Ystad, a sut y gellid ymgorffori hyn fel esiampl i eraill. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r mesurau ar gyfer y cylch adrodd nesaf yn cynnwys defnyddio enghreifftiau.
34. Holwyd a oedd ymdeimlad y gallai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol gamliwio gweithgareddau a chanlyniadau ac a fyddai mesurau y tu hwnt i hyn a fyddai'n Goch neu Oren. Cydnabuwyd bod hyn yn ystyriaeth bwysig i barhau i gael ei hadolygu. Roedd y berthynas rhwng Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn elfen bwysig hefyd.
35. Rhoddodd yr Athro Calvin Jones drosolwg o'r dull diwygiedig o adrodd ar berfformiad yn unol â'r Cynllun Corfforaethol newydd. Cynigiwyd y byddai Dangosyddion

Perfformiad Allweddol yn parhau ond bod mesurau canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd. Byddai'r rhain yn gymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol ynghyd â naratifau. Cydnabuwyd y byddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn parhau i fod yn fesur pwysig o berfformiad busnes a byddai'r dangosyddion gweithredol arfaethedig yn sicrhau'r lefel hon o sicrwydd.

36. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Ch3 y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch3.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad Ch3 y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Ch3

Eitem 8. Eitemau i'w Cymeradwyo

Adroddiad Chwarter 3 Llesiant, Iechyd a Diogelwch

37. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu drosolwg byr o'r papur, gan nodi bod y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid wedi craffu arno a'i gymeradwyo ar 1 Mawrth.

38. Nododd aelodau'r Bwrdd y Monitro Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel y trafodwyd yn yr eitem flaenorol. Holwyd a oedd risg i'r sefydliad drwy fonitro hyfforddiant gorfodol heb System Rheoli Dysgu ar waith.

39. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu bod y mater hwn wedi'i drafod ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, a rhoddodd sicrwydd ei fod yn derbyn y lefel briodol o graffu i leihau unrhyw risgiau.

40. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3

Eitem 9. Unrhyw Fater Arall

41. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Daeth y Cyfarfod i Ben

Holi ac Ateb Cyhoeddus

42. Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi'u derbyn ymlaen llaw gan aelodau'r cyhoedd.

Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i Ben

Log Gweithredu'r Bwrdd – Cyhoeddus

Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
1	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd i ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	17/07/2024	Yn barhaus	Wedi symud ymlaen (er wedi'i oedi am gyfnod byr wrth i ni ddatrys cyllidebau IDD 24-25 a chyfrifon IDD 24-25) gyda'r bwriad o weithredu rhywbeth sy'n fwy cyson ac yn adlewyrchiad gwell o'r adferiad cost llawn er mwyn pennu cyllideb 25-26.
2	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu cyhoeddus y Bwrdd yn seiliedig ar le	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	01/05/2024	Yn barhaus	Opsiynau ar gyfer datblygu ymgysylltu â'r cyhoedd gan y Bwrdd. Y dull i'w gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.
18	Cyhoeddus	21/03/2024	5	17	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i rannu'r gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Ebrill gyda Helen Pittaway	Ysgrifenyddiaeth	29/03/2024	Cwblhawyd	

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B01
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

1. Nid y tywydd sydd wedi hoelio'r sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf – sydd ychydig mwy gwanwynol erbyn hyn – ond y newidiadau yn Llywodraeth Cymru yn dilyn ymddiswyddiad Mark Drakeford fel Prif Weinidog. Rydym wedi diolch i'n Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, sy'n ymadael ac wedi croesawu Huw Irranca-Davies fel Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn adnabyddus i ni fel aelod o Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ers sawl blwyddyn. Rydym eisoes wedi cael galwadau cychwynnol gydag ef i drafod blaenoriaethau ac wedi estyn croeso iddo i Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron i ddod am dro a sgwrs â'n Cadeirydd a'n cydweithwyr sy'n rhan o brosiect Dalgylch Arddangos Teifi.
2. Byddwn yn parhau i weithio gyda Julie James yn rhinwedd ei swydd newydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am y Parciau Cenedlaethol. Mae galwad gychwynnol wedi'i chynnal i'w hysbysu am y sefyllfa bresennol a'r amserlen ar gyfer y parc cenedlaethol newydd arfaethedig yn y Gogledd-ddwyrain. Bydd ein perthynas waith arwyddocaol arall gyda Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, yn ymwneud yn benodol â phrosiectau ynni.
3. Wrth i'r newidiadau hyn ddigwydd o'n cwmpas, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n tîm Nawdd ar faterion cyllidebau a chyllid. Er bod y sefyllfa diwedd blwyddyn yn dal i gael ei chwblhau, rydym lle mae angen i ni fod yn erbyn ein cyllideb 2023/24 – tipyn o gamp o ystyried yr holl bwysau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r pwyslais yn symud yn awr i'r newidiadau sefydliadol sydd angen eu gwneud i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Ddechrau Ebrill, daethom ag aelodau ein tîm Gweithredol ac Arweinyddiaeth ynghyd i ddechrau'r sgysiau a'r gwaith cynllunio sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn llywio'n sefydliad i fod yn un a fydd yn cyflawni amcanion ein Cynllun Corfforaethol erbyn 2030 gyda llai o adnoddau.

4. Mae'r tîm Gweithredol a minnau wedi parhau i roi diweddariadau clir ac amserol i'n cydweithwyr ynghylch ein sefyllfa ariannol a'r broses newid gyfredol. Ynghyd â negeseuon e-bost misol, rydym yn cynnig galwadau holl-staff misol er mwyn rhoi cyfle i ofyn cwestiynau a chael atebion, sy'n denu criw da bob amser. Wrth i ni fynd i'r cam comisiynu ac ymgynghori, efallai na fyddwn yn gallu rhannu cymaint o fanylion, ond rydym yn dal i ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb wrth gymryd y camau allweddol nesaf. Hefyd, rydym yn ymgysylltu â'r Undebau Llafur, ein blaenoriaeth yw dod o hyd i opsiynau sy'n ein galluogi i liniaru colli swyddi a chreu mwy o gadernid tymor hwy.
5. Ym mis Ebrill, cefais gyfarfod gyda Will Bramble, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Penfro, i drafod her benodol safle tirlenwi Withyhedge. Ymwelais â'r ardal o amgylch Withyhedge yn ddiweddarach yn y mis, gan dreulio amser gyda'n tîm Rheoleiddio Diwydiant a Gwastraff i ddeall eu gwaith arolygu a monitro. Diolch i'n Pennaeth Gweithrediadau yn y De-orllewin, Huwel Manley, ac eraill sy'n gweithio'n ddiflino i ddatrys y sefyllfa yn Withyhedge ac yn parhau i gyfathrebu â phartneriaid, cymunedau lleol ac aelodau unigol o'r cyhoedd sy'n dal i godi pryderon gyda ni. Byddaf yn diweddarau'r Bwrdd ar lafar ar y datblygiadau diweddaraf.
6. Yn ystod wythnos yn Sir Benfro, roedd hi'n braf cwrdd â chydweithwyr yn swyddfa Hwlfordd, a oedd yn brysur ac yn llawn egni yn ystod fy ymweliad. Ymwelais â Thraeth y De Dinbych-y-pysgod hefyd i glywed am y gwaith atgyweirio arfaethedig i gwlfwr Afon Rhydeg, a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Penalun, lle ymunodd cydweithwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol â ni. Roedd ymweliad â Stack Rocks a maes tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastellmartin yn gyfle i gwrdd â phartneriaid o'r Defence Infrastructure Organisation ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac ymestyn ein cytundeb cydweithio â nhw drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd.
7. Yn nes at adref, mwynheais ymweliad â Dom Driver, ein Pennaeth Stiwardiaeth Tir, i'n darn newydd o dir ger Moel Arthur ym Mryniau Clwyd. Ein bwriad ar gyfer y safle hwn yw creu coetir cymysg y gellir ei reoli'n sensitif trwy deneuo, gwella bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd, a chyfrannu at well mynediad lleol a dehongli tirwedd.
8. Ddiwedd Ebrill, teithiais i Gaeredin ar gyfer cyfarfod Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB), a drefnwyd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur. Roedd Steve Ormerod yno hefyd. Roedd yn ddigwyddiad da, gyda thrafodaethau defnyddiol ynghylch yr heriau presennol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar 30x30. Cawsom

ddiweddariad gan JNCC ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU, a gyhoeddir ar 22 Mai. Bydd Cymru'n cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb y grŵp hwn y flwyddyn nesaf. Roedd y daith i'r Alban yn gyfle defnyddiol i gwrdd ag eraill gan gynnwys Nicole Paterson, Prif Swyddog Gweithredol y Scottish Environmental Protection Agency, Philip Long o'r National Trust for Scotland, Stuart Goodall, Confor, a Paul Lowe, Scottish Forestry. I gwblhau'r gyfres o gyfarfodydd, cefais sgwrs gyda Phil Duffy, Prif Swyddog Gweithredol Asiantaeth yr Amgylchedd, pan oeddwn yn Llundain.

9. Ym mis Mai, ymunais â Phrif Weithredwyr y Parc Cenedlaethol Emyr Williams, Catherine Mealing-Jones a Tegryn Jones am sgwrs a thaith o amgylch Llynpenmaen, Dolgellau. Roedd yn gyfle i nodi ymddeoliad Emyr ddiwedd yr haf hwn, ar ôl deng mlynedd yn y swydd. Mae proses recriwtio ar y gweill er mwyn penodi rhywun i gymryd ei le yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
10. Roeddwn yn falch o fynychu'r Gynhadledd Twyni Byw yng Nghaernarfon, lle rhoddais yr anerchiad croeso. Daeth nifer dda o gydweithwyr a chyfranwyr ynghyd, gydag agenda'n cwmpasu'r wybodaeth ddiweddaraf am gadwraeth twyni tywod a chanfyddiadau ac uchafbwyntiau pum mlynedd y prosiect o weithredu dros fioamrywiaeth. Hon oedd y gynhadledd olaf wrth i'r prosiect ddirwyn i ben ym mis Mehefin, gan ddatlu llwyddiannau anhygoel wrth adfer twyni tywod ac adfywio'r cynefinoedd gwerthfawr hyn mewn deg safle ledled Cymru.
11. Ymunodd Matt Harrington â ni ddiwedd mis Mawrth yn rôl Pennaeth TGCh Dros Dro. Roedd yn swydd hanfodol i'w llenwi, gan sicrhau arweinyddiaeth ar gyfer ein rhaglen sefydlogi TGCh. Rwy'n ddiolchgar i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Prys Davies am ymgymryd â'r rôl Uwch Berchennog Cyfrifol am CNC2030 yn ystod absenoldeb Rachael Cunningham. Mae ein Rheolwr Materion Cyhoeddus Kate Evans wedi dechrau ar secondiad chwe mis i Ofwat.

Materion Strategol

CNC2030

12. CNC2030 yw ein rhaglen Trawsnewid Busnes. Bydd pedair rhaglen allweddol yn cynnwys Pobl, Technoleg, Adfywio a Thrawsnewid Gwasanaethau.
13. Yn hanner cyntaf 2024/25, bydd ymdrechion yn canolbwyntio ar sefydlu'r rhaglen Technoleg yn ffurfiol, a bydd nifer o brosiectau allweddol o dan hynny yn cynnwys sefydlogi, DDaT / GDD (Digidol, Data a Thechnoleg / Digidol a Data y Llywodraeth) a rheoli systemau ar wahân i TGCh. Dechreuodd y gwaith sefydlogi gyda phenodi partner cyflenwi tactegol sydd eisoes wedi dechrau gweithio ar y rhaglen waith ar gyfer eleni.
14. Mae Pobl ac Adfywio eisoes wedi'u sefydlu fel rhaglenni ac maent yn parhau i gyflawni. Mae gwaith ar System Rheoli Dysgu newydd wedi dechrau dan raglen Pobl, ac mae tîm y rhaglen Adfywio'n canolbwyntio ar gwblhau'r broses o symud i

adeilad Parc Cathays Llywodraeth Cymru wrth wagio Tŷ Cambria. Bydd pwyslais y ddau chwarter cyntaf ar fflyd a datblygiad strategaeth y fflyd, a sicrhau dyfodol depo i wasanaethu'r anghenion gweithredol yn ardal Canol y De.

15. Bydd system lywodraethu gadarn o amgylch y rhaglen CNC2030 gyfan yn cael ei sefydlu erbyn diwedd Ch2.

PR24 a buddsoddiad Gorlif Storm

16. Yn dilyn rhyddhau nodyn cyfarwyddyd CNC GN066 ar gyfer asesu gorlifoedd storm ym mis Hydref 2023, mae cwmnïau dŵr yng Nghymru wedi ail-werthuso'r gofynion buddsoddi ar gyfer PR24 i gynnwys gwaith asesu a gwella llawn.
17. Y disgwyliad cost cychwynnol ar gyfer holl Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd (NEP) oedd tua £300m. Cododd hyn i £900m fel rhan o drafodaethau rhwng CNC a'r cwmnïau dŵr gydol y broses adolygu prisiau. Ar ôl rhyddhau GN066, mae buddsoddiad cwmni dŵr i gyflawni'r gofynion NEP wedi cynyddu i oddeutu £1.4bn ar gyfer y cyfnod 2025-30.
18. Er ein bod wedi pwyso am y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad i'r amgylchedd, gan dargedu ardaloedd lle mae eu gweithrediadau yn achosi'r niwed mwyaf – ac mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir – bydd angen buddsoddiad parhaus dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod gorlifoedd storm yn cael eu gwella i sicrhau nad oes unrhyw niwed i'r amgylchedd yn sgil asedau anfoddhaol neu is-safonol. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda cwmnïau dŵr, Llywodraeth Cymru ac Ofwat i sicrhau'r canlyniad gorau i'r amgylchedd fel rhan o'r broses adolygu prisiau. Bydd cadarnhad cyllid o'r NEP yn rhan o broses benderfynu derfynol Ofwat, sydd i fod i ddigwydd ddiwedd 2024.

Caniatâd datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

19. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer piblinell CO₂ HyNet, cam cadarnhaol o ran datblygu'r seilwaith i hwyluso datgarboneiddio. Heb os, bydd rhoi caniatâd cynllunio yn ysgogi datblygiad cynigion ymhellach ar hyd llwybr y biblinell.
20. Bydd y biblinell yn cludo CO₂ sy'n cael ei gynhyrchu a'i gadw gan gyfleusterau cynhyrchu hydrogen yn y dyfodol a safleoedd diwydiannol presennol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru i'w storio ar y môr. Buom yn gweithio'n agos gyda'r ymgeisydd i sicrhau bod pawb yn deall ac yn lliniaru effeithiau amgylcheddol y cynllun cyn yr archwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn yr ymchwiliad cynllunio, dim ond un maes sylweddol o anghytundeb oedd gennym, a oedd yn ymwneud â'r dull o groesi Nant Alltami. Yn y pen draw, cytunodd yr arolygydd â ni mai gosod pont bibell yn hytrach na rhoi'r bibell mewn ffos yng ngwely'r afon fel y cynigiwyd gan yr ymgeisydd, fyddai'r opsiwn amgylcheddol gorau er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae hyn wedi'i sicrhau yn awr fel rhan o'r caniatâd.

21. Dyma un o'r prosiectau datgarboneiddio mawr cyntaf yng Nghymru y mae CNC wedi rhoi cyngor arno hyd yma, ac eithrio prosiectau ynni adnewyddadwy morol a daearol. Credwn y bydd gwaith o'r fath yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol.

Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren (SVWMS)

22. Mae'r cynllun hwn, a oedd yn ymateb i lifogydd ar raddfa eang ar hyd Afon Hafren a'i llednentydd yn ystod gaeaf 2019/20 yn wreiddiol, yn brosiect strategol i ddatblygu cynllun rheoli dŵr cynaliadwy yn Nalgylch Uchaf Hafren. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU a'i arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr, mae'r prosiect trawsffiniol yn cwmpasu ardal o dros 2,500km², ac mae tua dwy ran o dair ohoni yng Nghymru. Y prif nod yw lleihau perygl llifogydd, ond hefyd ymateb i gyfnodau o sychder, gan gyfrannu at ddiogelwch dŵr tymor hwy a buddion amgylcheddol ehangach trwy gymysgedd o atebion sy'n seiliedig ar natur ac atebion peirianeg sensitif.
23. Yn dilyn gwaith ymgysylltu cynharach gan Asiantaeth yr Amgylchedd, fe wnaethom gydnabod graddfa ac arwyddocâd posibl y cynllun ar gyfer Cymru a briffio swyddogion Llywodraeth Cymru, a ofynnodd wedyn am sicrwydd gan y prosiect ei fod yn cyd-fynd â pholisi ac amcanion Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd y sicrwydd hwn a chawsom gymeradwyaeth i ail-ymgysylltu ym mis Gorffennaf 2023. Ers hynny, rydym wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid strategol eraill y cynllun - sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Swydd Amwythig a Chyngor Sir Powys - i lywio strategaeth ddrafft, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n Cynllun Corfforaethol ein hunain.
24. Erbyn hyn, mae cynrychiolaeth o CNC ar Fwrdd SVWMS ac mae'n cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda staff y prosiect. Mae'r cynllun yn cynnig rhai atebion seiliedig ar natur rydym eisoes yn eu datblygu, megis adfer mawndir, adfer afonydd a rheoli perygl llifogydd yn naturiol, felly mae er budd pawb i weithio gyda'r cynllun i sicrhau ei fod yn ategu ein rhaglenni gwaith cyfredol ac arfaethedig.
25. Gan fod y cynllun yn berthnasol i amrywiaeth eang o gyfrifoldebau a diddordebau CNC, mae ganddo'r potensial i effeithio ar dimau ac adnoddau gwahanol ar draws ein sefydliad. O ystyried y cymhlethdod hwn, rydym yn archwilio'r ffordd orau i gydlynu a rheoli ein hadnodd i gefnogi a llywio'r prosiect, yn enwedig gan ei fod yn dechrau ar ei gyfnod yn wynebu'r cyhoedd erbyn hyn. Bydd hyn yn debygol o gynnwys ffurfio grŵp llywio CNC i lywio ein cyfraniad. Rydym mewn trafodaethau am adnoddau a ariennir gan SVWMS hefyd i gefnogi ein cyfraniad at y prosiect.
26. Os caiff ei reoli'n sensitif ac yn gywir, gallai'r cynllun gefnogi uchelgais ein Cynllun Corfforaethol i gynyddu'r ddarpariaeth o atebion sy'n seiliedig ar natur drwy "liniaru effeithiau llifogydd a sychder a gwella ansawdd dŵr drwy nodi cyfleoedd ar gyfer rheoli tir a dŵr yn integredig ar raddfa dalgylch". Gallai'r cynllun helpu i ganfod dull

newydd o reoli dŵr hefyd, bod o fudd i fioamrywiaeth a helpu cymunedau i allu gwrthsefyll cyfnodau o dywydd garw yn well.

27. Mae gwleidyddion yn Senedd Bae Caerdydd a San Steffan yn craffu ar y prosiect a'i botensial i leddfu'r difrod a achoswyd gan lifogydd i gymunedau ar hyd yr afon eiconig hon.
28. Agorodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Adroddiad Cwmpasu a Dogfen Weledigaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd SVWMS ar 9 Ebrill a bydd yn para am chwe wythnos, a dylai sicrhau bod gofynion lleol yn cael eu casglu i gefnogi datblygiad cydweithredol unrhyw atebion yn y dyfodol. Bydd y cymunedau ym Mhowys yn cynnwys y rhai a ddioddefodd lifogydd mewn dwy o'r stormydd a enwyd yn gynharach eleni.
29. Wrth i'n cyfraniad ni at y cynllun gael ei lywio gan safbwynt ein Gweinidog blaenorol, rydym wedi cael trafodaeth ddiweddar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein dull gweithredu'n parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Materion Gweithredol

Erebus – Gwersi a Ddysgwyd

30. Yn dilyn ein profiad ar y cyd o heriau defnyddio a phennu'r drwydded forol ar gyfer cynnig fferm wynt arnofiol ar y môr Erebus, cytunwyd i gynnal gweithdy gwersi a ddysgwyd ar y cyd gyda staff Erebus a CNC. Roedd yn drafodaeth agored a gonest lle'r oeddem yn cydnabod bod rhai o'r newidiadau a awgrymir yn rhan o gyflawni nifer o'r argymhellion o'r Adolygiad o'r Dechrau i'r Diwedd ar Drwyddedu Morol a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr Archwiliad Dwfn o Ynni Adnewyddadwy.
31. Hefyd, cytunwyd ar gyfres o bwyntiau y gellid eu rhannu'n ehangach gyda'r bwriad o fod o fudd i holl randdeiliaid ynni adnewyddadwy ar y môr. Roedden nhw'n ymwneud â phedwar maes allweddol – yr angen am broses ymgysylltu dda cyn ymgeisio, cyfathrebu da gydol y broses, amserlen glir a mwy o eglurder a ffocws yn yr ymateb.

Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) – diweddariad

32. Mae'r prosiect Afonydd ACA wedi dod i ben mewn gwirionedd ac rydym yn symud i flwyddyn drawsnewidiol gyda thîm llawer llai. Nodau'r flwyddyn drawsnewidiol (2024/25) fydd:
 - cwblhau unrhyw waith blaenoriaeth a gynlluniwyd sydd heb ei gwblhau;
 - nodi cynllun Busnes Fel Arferol lle cytunir ar berchnogaeth glir ar feysydd gwaith a chyfrifoldebau a ddyrennir i staff penodol; ac
 - yn ystod y chwe mis olaf, trosglwyddo'r meysydd gwaith allweddol i berchnogion ond darparu cymorth i ddatblygu.

33. Cynhaliwyd 4edd Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar Gynllun Gweithredu 'Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy' ar 18 Mawrth a fynychwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford A, Lesley Griffiths A, y Gweinidog Materion Gwledig, a Julie James A, y Gweinidog Newid Hinsawdd. Hwn oedd eu presenoldeb swyddogol olaf cyn penodi Vaughan Gething yn Brif Weinidog.
34. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Syr David Henshaw ar ran CNC gan ganolbwyntio ar gadwraeth afonydd ACA, gyda chyflwyniadau ar brosiect Pedair Afon LIFE, prosiect Dalgylch Arddangos Teifi a'r gwaith rhagweithiol sy'n cael ei gyflawni gan Ymddiriedolaethau Afonydd ledled Cymru gan Afonydd Cymru. Cyflwynwyd sawl cwestiwn ymlaen llaw a bu CNC a Llywodraeth Cymru'n gweithio ar ddogfen i goladu'r atebion, a gafodd ei dosbarthu wedyn.
35. Roedd un o gamau'r cynllun gweithredu'n ymwneud â'r gwaith Adolygiad o Drwyddedau. Rydym wedi cyhoeddi 132 o amrywiadau hyd yma ac wedi cytuno nad oes angen amrywiad ar naw gan fod tystiolaeth wedi'i darparu i ddangos bod y trwyddedau o dan 20m³/dydd llif tywydd sych. Mae 30 o drwyddedau ar ôl i'w cyhoeddi. Mae'r trwyddedau gyda'r amrywiadau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.
36. Rydym wedi derbyn dau gais gan Dŵr Cymru i amrywio'r dyddiad y gallent fodloni'r dyddiad terfyn olaf ar gyfer ffosforws o 5mg/l. Rydym yn disgwyl mwy o'r rhain dros y misoedd nesaf a byddwn yn gwneud penderfyniadau fesul achos.
37. Mae ein contractwyr, Atkins, wedi cyflwyno adolygiad tystiolaeth o'r enw 'Rapid Evidence Assessment of the Impacts of Organic Manures on the Water Quality of Rivers'. Mae adolygiad mewnol lefel uchel ar y gweill cyn cael ei gyhoeddi fel rhan o gyfres Adroddiad Tystiolaeth CNC. Mae Natural England wedi rhyddhau adroddiad o'r enw 'Information on Nature Based Solutions as Nutrient Mitigation (NBS2024)'.
38. Ar hyn o bryd mae'r gwaith o lywodraethu prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn rhan o brosiect Afonydd ACA gan eu bod nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, nes ein bod yn llwyddo i sicrhau cyllid. Rydym wedi derbyn adroddiad ar allbynnau hacathon Teifi ym mis Chwefror gan Cwmpas, a hwylusodd y digwyddiad. Mae'r allbynnau'n cynnwys syniadau am themâu prosiectau dan arweiniad ffermwyr; integreiddio a delweddu data; ymwybyddiaeth o ansawdd dŵr; cyllid hirdymor cydweithredol; glawriad / rheoli dalgylch; a newid ymddygiad.
39. Cafwyd cyfarfod pellach o Grŵp Craidd Prosiect Teifi ym mis Ebrill. Trefnir ymweliad ddechrau mis Mai â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron a'r cyffiniau i weld gwaith sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd ym mhrosiectau Adfywio Cyforgorsydd Cymru, Pedair Afon LIFE a'r Mwyngloddiau Metel a rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae prosiect Dalgylch Arddangos Teifi yn ceisio ei gyflawni. Bydd Ysgrifennydd newydd y Cabinet, Huw Irranca-Davies AS, yn bresennol yn yr ymweliad hwn ynghyd â chydweithwyr o Ofwat a Dŵr Cymru.

40. Ym mis Ebrill, cyhoeddodd DEFRA Gynllun Gweithredu newydd ar gyfer Afon Gwy, sy'n ymddangos fel pe bai wedi bwrw rhanddeiliaid a rheoleiddwyr o boptu'r ffin oddi ar eu hechel. Mae Llywodraeth y DU wedi penodi Anthea McIntyre, cyn-gynghorydd Rhosan ar Wy a chyn-ASE yn 'Hyrwyddwr Afon' newydd ar gyfer Afon Gwy. Mae'r Aelod Seneddol Jesse Norman wedi awgrymu darparu £35m o gyllid newydd i gefnogi'r cynllun.

Mai Di-dor

41. Byddwn yn lleihau gwaith torri gwair i'r lefelau isaf ar dir sydd yn ein gofal yn ystod mis Mai, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi ymgyrch 'Mai Di-dor' (No Mow May) Plantlife, a sefydlwyd yn 2019. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd lle byddem yn torri glaswellt a llystyfiant gydol y tymor tyfu fel arfer, megis mewn coedwigoedd, gwarchodfeydd natur, glannau afonydd, amddiffynfeydd llifogydd ac argloddiau cronfeydd dŵr, gydag ambell eithriad yn unig er diogelwch y cyhoedd, perygl llifogydd a rhesymau cadwraeth natur.
42. Mae graddfa a chyflymder colli bioamrywiaeth ar draws Cymru yn cyflymu. Mae traean yr holl fwyd rydyn ni'n ei fwyta wedi'i greu gan beillio, a heb bryfed peillio, byddai ein cyflenwad bwyd yn methu. Bydd lleihau torri gwair ym mis Mai yn helpu bioamrywiaeth drwy ganiatáu i blanhigion y gwanwyn hadu a thyfu i ddarparu neithdar a phail ar gyfer gwenyn, gloynnod byw a pheillwyr eraill. Bydd yn annog glaswellt hir a blodau gwyllt sydd o fudd i fywyd gwyllt, yn mynd i'r afael â llygredd a gall gloi carbon o dan y ddaear hyd yn oed. Gyda'i gilydd mae hyd yn oed y darnau glaswelltrog lleiaf yn gyfran sylweddol o'n tir; os cânt eu rheoli'n iawn, gallant sicrhau enillion enfawr i natur, cymunedau a'r hinsawdd.

Ffos-y-fran

43. Dros y misoedd diwethaf, bu dau gyfarfod gweithgor technegol yn cynnwys yr Awdurdod Glo, Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a CNC. Mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar gynlluniau'r cwmni ar gyfer rheoli dŵr ac adfer ar ôl rhoi'r gorau i gloddio, a ddigwyddodd ym mis Tachwedd. Mae'r cwmni'n parhau i gynnal presenoldeb ar y safle, ond ar raddfa tipyn llai. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Ebrill.
44. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae CNC wedi derbyn cwestiynau gan yr awdurdod lleol ynghylch y gwagle ac a yw'n dod dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Rydym wedi cyngori nad yw'n dod o dan y cylch gwaith hwnnw ar hyn o bryd, ac felly ni allwn arfer pwerau o dan y Ddeddf. Bu diddordeb yn y cyfryngau hefyd ynghylch y gwagle'n llenwi gyda dŵr, a phryderon (o ffynonellau anhysbys) am ansawdd dŵr. Mae'r cwmni'n parhau i gydymffurfio â'i drwyddedau ac ni nodwyd unrhyw faterion llygredd; byddwn yn parhau i fonitro'r safle ac ymgysylltu â nhw ar eu cynlluniau rheoli dŵr ehangach.

Safle Tirlenwi Withyhedge

45. Ar ôl derbyn cwynion niferus am yr arogl sy'n deillio o safle tirlenwi Withyhedge, ar 13 Chwefror, fe wnaethom gyflwyno camau ffurfiol y mae'n ofynnol i'r cwmni sy'n

gyfrifol am y safle, RML, eu cymryd mewn perthynas â'r màs gwastraff heb ei gapio dan Hysbysiad Gorfodi Rheoliad 36 yn ymwneud â chelloedd 6 a 7 ar y safle.

46. Roedd yr hysbysiad yn cynnwys nifer o gamau i'w cwblhau mewn trefn benodol, a adlewyrchir gan ddyddiadau cwblhau gwahanol. Y dyddiad allweddol oedd 5 Ebrill, ac erbyn hynny roedd rhaid capio'r màs gwastraff, gan osod a chysylltu seilwaith nwy tirlenwi. Fe wnaethom gynnal arolygiad rheoleiddiol i wirio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad ar 8 Ebrill. Dangosodd asesiad gweledol o'r gwaith a wnaed fod gweithredwyr y safle wedi cwblhau'r gwaith capio a'r gosodiad ffynnon nwy gofynnol.
47. Er gwaethaf cwblhau'r gwaith hwn, rydym wedi parhau i dderbyn adroddiadau o arogleuon ac wedi gweld mai'r safle tirlenwi cyfagos, cell 8, yw'r ffynhonnell a oedd wedi derbyn peth o'r gwastraff o gelloedd 6 a 7. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gorfodi Rheoliad 36 pellach ar 19 Ebrill mewn perthynas â chell 8 ac rydym yn disgwyl i'r gweithredwr gapio'r gell hon a gosod seilwaith nwy cyn pen tair wythnos fan bellaf. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi dechrau eisoes. Rydym yn cynyddu ein gwaith monitro nwy ac aroglau oddi ar y safle hefyd. Os na fydd yr hysbysiad diweddaraf yn mynd i'r afael â'r broblem barhaus, byddwn yn cynyddu ein hymateb rheoleiddiol.

Gwaith Cynaeafu, Rhyslyn

48. Llannerch cwmpo coed fawr yng Nghwm Afan, Castell-nedd Port Talbot yw Rhyslyn 99100. Mae'r llannerch yn cynnwys coed llarwydd wedi'u heintio â *Phytophthora ramorum*, a dyma'r safle cyntaf yng Nghymru a heintiwyd 'nôl yn 2010. Mae Cwm Afan yn gyrchfan hamdden bwysig sy'n darparu mynediad i weithgareddau fel beicio mynydd, llwybrau cerdded ac ardaloedd ar gyfer marchogaeth diogel yn ogystal â chefnogi busnesau lleol, gan gynnwys tair canolfan beicio mynydd sydd mewn dwylo preifat.
49. Oherwydd presenoldeb prif bibell nwy pwysedd uchel a oedd angen ei datgomisynu ar hyd llwybr y goedwig, nid oedd modd dechrau'r gwaith cynaeafu tan ddiwedd hydref 2022. Y bwriad cychwynnol oedd cwblhau'r gwaith erbyn haf 2023. Fodd bynnag, oherwydd oedi parhaus (gan gynnwys materion cytundebol) ni chwblhawyd y gwaith tan fis Mawrth 2024, ac ar yr adeg honno cafodd y safle ei ailagor yn rhannol i'r cyhoedd (ardaloedd 1 a 2 yn unig). Cyn ailagor, fe wnaethom gwblhau gwaith gwella ar arwynebau llwybrau cerdded a beicio mynydd, adnewyddu pob postyn nodi llwybr a gosod meinciau picnic newydd ledled ardaloedd 1 a 2.
50. Mae ardaloedd 3 a 4 ar gau i'r cyhoedd o hyd oherwydd dim ond yn rhannol mae coed wedi'u cwmpo yno. Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth i randdeiliaid sy'n pryderu am yr effaith barhaus ar dwristiaeth a busnes lleol yn yr ardal. Cynhaliwyd cyfarfod diweddar ym Mhont-rhyd-y-fen gyda thîm Rheoli Tir SW i ddiweddarau busnesau lleol a Chyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ar ardaloedd 3 a 4.

Rydym yn gweithio ar gaffael contract newydd i gwblhau cynaeafu'r ardaloedd sy'n weddill oherwydd achos o dorri contract a phryderon diogelwch gyda'r contractwr a oedd wedi dechrau'r gwaith cynaeafu cychwynnol.

Fferm Wynt y Bryn

51. Fel rhan o ddatblygiad fferm wynt arfaethedig ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, mae Fferm Wynt y Bryn Cyf – partneriaeth rhwng y datblygwr Coriolis Energy a'r cwmni cyfleustodau ESB – wedi cyflwyno ei gais cynllunio terfynol i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Mae'r datblygwr yn cynnig gosod hyd at ddeunaw tyrbîn o fewn blociau Pen-hydd a Margam, Castell-nedd Port Talbot, gyda rhai'n mesur 250m o lefel y ddaear i flaen y llafn. Pe bai'n derbyn cydsyniad, byddai'r tyrbînau hyn ymhlith y tyrbînau tir mwyaf yn y DU.
52. Er bod y cais wedi'i gyflwyno ddiwedd mis Rhagfyr 2023, dim ond nawr mae ar gael i'w weld ar wefan PEDW gan fod llawer o geisiadau'n cael eu prosesu ar hyn o bryd. Mae datganiad i'r wasg a gaiff ei ryddhau'n fuan, wedi'i baratoi gan Y Bryn Windfarm Ltd i gyhoeddi cyflwyno'r cais cynllunio.

Prosiect Creu Coetir Coed Abermarlais (Brownhill)

53. Dyma brosiect "creu coetir sy'n defnyddio prosiect Ystad Goed Llywodraeth Cymru" ar safle 94ha ger Llangadog, Sir Gâr sy'n cynnwys coetir coffa Covid. Efallai bod aelodau'r bwrdd yn cofio'r tensiynau rhwng rhanddeiliaid oedd yn cefnogi creu coetir ac eraill a oedd o'r farn bod hynny'n tarfu ar economeg ffermio. Rydym wedi plannu'r coetir coffa 14ha ac eleni byddwn yn adeiladu mynedfa a maes parcio newydd i'r cyhoedd. Mae'n ymddangos bod diddordeb cadarnhaol yn yr elfen hon. Byddwn hefyd yn plannu er mwyn cyfoethogi rhan o gynefin afonol 26ha i wella ei gwerth bywyd gwyllt ymhellach a dechrau rheoli jac y neidiwr ar hyd yr afon.
54. O ran yr ardal sy'n weddill, rydym wedi bod yn chwilio am bartneriaeth amaethyddol, ond heb lwyddo i sicrhau canlyniad pendant eto. Felly, rydym wedi penderfynu defnyddio'r rhan hon i ddangos gweledigaeth ar gyfer integreiddio ffermio, bioamrywiaeth a choetir drwy blannu o leiaf 10% o'r safle gyda choed ac yna cynnig y tir i'w rentu ar gyfer defnydd sy'n cyfuno ffermio, coedwigaeth a gwella bioamrywiaeth. Os gallwn ddod o hyd i'r bobl iawn sy'n barod i weithio gyda ni, byddwn yn cyd-ddylunio'r gwaith plannu gyda ffermwyr. Mae'n ddefnyddiol bod y darn 54ha hwn yn agos at faint cyfartalog tirddaliad yng Nghymru (48ha) felly gallai fod yn enghraifft realistig o'r math o beth a ragwelir yn y cynigion presennol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
55. Mae caffael y safle gennym ni yn parhau i fod yn fater sensitif ac rydym yn teimlo bod ein dull gweithredu'n dangos pŵer ein model integredig, gan ddangos yr hyn sy'n bosibl trwy ddilyn egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Atal Ardystio Coedwig – Tilhill Forestry Ltd

56. Fe wnaeth y Cyngor Stiwardiaeth Coedwig a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd atal tystysgrif Tilhill Forestry Ltd, un o gwmnïau coedwigaeth mwyaf y DU sydd â thua 209,000ha o goetir yn ei bortffolio, ar 10 Ebrill yn dilyn archwiliad Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS). Nododd datganiad cyhoeddus gan riant gwmni Tilhill, BSW Group, fod y tystysgrifau wedi'u hatal oherwydd dau achos o ddiffyg cydymffurfio ar y safle: "BSW Group takes this very seriously and we are working closely with the onsite team and the certification body to resolve this as soon as possible. We are taking the required actions to rectify the issues and are confident that the certificate will be reinstated swiftly."
57. Mae atal tystysgrifau'n anarferol yn y DU ond mae'r cam hwn yn dangos bod archwilwyr UKWAS (yn yr achos hwn, Soil Association Ltd) a chyrff ardystio yn barod i ac yn gallu cymryd camau cryf i gynnal y safonau. Bydd ein harchwiliad UKWAS blynyddol ein hunain yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf. Rydym yn gweithio'n galed i gynnal y gwelliannau yr ydym wedi'u cyflawni mewn canlyniadau archwilio dros y blynyddoedd diwethaf ac yn gwneud cyfiawnder â'n huchelgais i barhau i fod yn esiampl o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy, fel rheolwyr c150,000ha o goetir a stiwardiaid mwyaf hirhoedlog yn y byd (ynghyd â Lloegr a'r Alban) coedwigoedd gwladol wedi'u hardystio. Ein harchwilwyr yw'r Soil Association Ltd.

Materion Mewnol

Proffesiynoldeb mewn Coedwigaeth

58. Llongyfarchiadau i Gareth Davies, Cynghorydd Arbenigol, Stiwardiaeth Tir sydd wedi sicrhau Aelodaeth Broffesiynol o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF). Mae Gareth yn rhedeg ein prosiect plannu digolledu ar benodiad tymor penodol o Coed Cymru. Yn anarferol i ni yn ddiweddar, Gareth yw ein hunig aelod o staff sydd wedi ennill y statws hwn yn y cylch hwn.
59. Mae datblygiad proffesiynoldeb coedwigaeth trwy'r ICF yn parhau'n gryf yn CNC gyda chwe Chymrawd, 20 Aelod Proffesiynol a 53 Aelod Cyswllt, a chyflawniad cyson o statws Cyswllt i statws Proffesiynol. Rydym yn cefnogi ail raglen Arweinwyr Newydd ICF, eu menter hyfforddi Safon Coedwigaeth y DU a datblygu eu llwybr Coedwigaeth Technegol i Aelodaeth Broffesiynol. Mae'r sawl y mae Gareth yn gweithio yn ei lle yn ystod cyfnod mamolaeth, Miriam Jones-Walters, yn gyn-fyfyriwr rhaglen Arweinwyr Newydd cyntaf ICF.

System Rheoli Dysgu Newydd

60. Dyfarnwyd contract i Kallidus i weithredu System Rheoli Dysgu (LMS) newydd ar gyfer e-ddysgu. Mae disgwyl i'r system gael ei lansio ym mis Gorffennaf. Yn y tymor hwy byddwn yn defnyddio'r system i archebu cyrsiau, ond i ddechrau bydd yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer e-ddysgu. Bydd y system yn gartref i

gynnwys newydd a gwell a bydd gennym fynediad at dros gant o gyrsiau e-ddysgu, gan gynnwys y cyrsiau diogelwch gorfodol a chatalog llawer mwy o e-ddysgu datblygiad personol.

61. Bydd y System Rheoli Dysgu'n hawdd i'w defnyddio ac yn addas i ffonau symudol, a bydd yn cynnwys sesiynau dysgu byr ac yn darparu adroddiadau cadarn. Fe'i cynlluniwyd i fod yn hawdd i ddysgwyr ei defnyddio a dod o hyd i hyfforddiant priodol, ac mae'n cynnig amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys gweminarau, fideos ac erthyglau. Mae'n hawdd i reolwyr weld pa hyfforddiant mae eu timau wedi'i gwblhau a'r hyn sydd angen ei gwblhau o hyd.

Cynllunio Strategol y Gweithlu – diweddariad

62. Mae'r tîm Cynllunio strategol wedi llwyddo i gwblhau modelu Gwasanaethau Cyngor Cynllunio Morol / Datblygu ac ardaloedd Datblygu Masnachol y sefydliad, ac wedi cynhyrchu adroddiad cryno, dadansoddi data, mewnwelediadau ac argymhellion i'r ddau dîm i'w helpu i fynd i'r afael â risgiau a bylchau allweddol mewn adnoddau a sgiliau a nodwyd trwy'r broses fodelu.
63. Mae'r gwaith hwn yn dilyn Cam 1 y prosiect, lle modelwyd Rheoli Perygl Llifogydd a Gwasanaethau Ariannol gyda chymorth Deloitte. Mae'n golygu ein bod wedi cwblhau modelu cynllunio gweithlu strategol ar gyfer 25% o'r sefydliad erbyn hyn, gan gynnwys nodi rolau hollbwysig a fydd yn gofyn am gynllunio olyniaeth. Byddwn yn symud ymlaen at Reoli Adnoddau Naturiol i'w fodelu nesaf, gan ddechrau ym mis Mai; bydd Trwyddedu a Rheoleiddio i ddilyn.
64. Ynghyd â'r broses fodelu, rydym wedi segmentu'r gweithlu cyfan yn CNC, yn seiliedig ar weithgaredd gwaith sylfaenol a sgiliau / cymwyseddu craidd. Bydd y segmentu'n darparu fframwaith seiliedig ar dystiolaeth i'w ddefnyddio a'i ddatblygu ar y system LMS newydd – gan adeiladu catalogau hyfforddi a llwybrau gyrfu yn ôl pennawd segmentau ar gyfer cydweithwyr. Bydd yn cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn Lleoliadau a'r Gronfa Adnoddau Hyblyg hefyd i sicrhau dull cydweithredol ac unedig.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

65. Cyn ethol y Prif Weinidog newydd, rhoddwyd cryn dipyn o adnoddau i reoli'r ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd gan y cyfryngau mewn perthynas ag erlyniadau amgylcheddol hanesyddol a gohebiaeth gysylltiedig â swyddogion etholedig. Roedd angen cydweithio'n agos ag ystod o gydweithwyr yn fewnol a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau negeseuon cywir. Cyn cyhoeddi'r Cabinet newydd, fe wnaethom hefyd gynnig amrywiaeth o opsiynau ymweld i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i'w hystyried, a rhestr o bynciau llosg i godi ymwybyddiaeth ohonynt.

66. Rydym wedi parhau â'n sesiynau cyfathrebu rheolaidd â chydweithwyr am benderfyniadau allweddol, ein sefyllfa ariannol a chynllunio ar gyfer heriau yn ystod y flwyddyn a'r blynyddoedd i ddod. Roedd hyn yn cynnwys ail sesiwn fisol "neuadd y dref" i'r holl staff a datblygu a dosbarthu dogfen "cwestiynau cyffredin," sy'n cael ei diweddarau'n gyson gennym.
67. Mae'r tîm Cyfathrebu wedi helpu cydweithwyr y tîm Cynllunio Corfforaethol i ddatblygu a chyhoeddi tudalen ar gyfer dinasyddion, lle mae effeithiau drafft a dangosyddion strategol ein Cynllun Corfforaethol ar gael i randdeiliaid roi adborth arnynt.
68. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Sarah Jennings yn brif siaradwr yn Fforwm Amgylchedd Gogledd Iwerddon lle bu'n siarad am rôl arweinyddiaeth y sector cyhoeddus yn yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r digwyddiad wedi arwain at gyfleoedd pellach i weithio'n agosach gyda'r Gweinidog newydd ac asiantaethau'r llywodraeth yn Iwerddon, wrth iddynt rannu ein heriau a'n pwrpas cyffredin.

Byd Natur Wrthi'n Gwella

69. Cyn i ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddod i ben, buom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i ddatblygu negeseuon yn ymwneud â'n hymateb ein hunain, gan fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at rôl ganolog amaethyddiaeth yn siapiau tirwedd Cymru a chadernid yr amgylchedd.
70. Roedd Diwrnod Rhyngwladol y Coedwigoedd yn gyfle i ni ddangos sut rydym yn rheoli ein coedwigoedd a'n coetiroedd yn gynaliadwy. Buom yn gweithio gyda chydweithwyr coedwigaeth i dynnu sylw at gyhoeddi canllawiau newydd ar newidiadau i drwyddedau cwmpo coed gyda rhanddeiliaid ac mewn cyhoeddiadau masnach.
71. Fe wnaethom gefnogi'r cyhoeddiad am y rownd ddiweddaraf o dderbynwyr cyllid Rhwydweithiau Natur. Dechreuodd gwaith hyrwyddo'r Wythnos Dysgu Awyr Agored Cymru o ddifrif yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â hyrwyddo camera poblogaidd y gweilch yn Llyn Clywedog. Tynnwyd sylw at negeseuon hamdden cyfrifol a'r Cod Cefn Gwlad adeg gwyliau'r Pasg, gan ganolbwyntio'n benodol ar batrolau ychwanegol ar ein safleoedd, a rheoli cŵn yn ystod y tymor wyna.
72. Mae sawl safle a darn allweddol o waith wedi ymddangos ar raglenni teledu a radio, gan gynnwys Colonel's Park ar *Secret World of Sound* gan David Attenborough ar Sky, y gwaith o ailgyflwyno madfallod cribog yn SoDdGA Maes y Grug a gwaith cadwraeth y gylfinir yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Fenn's Whixall and Bettisfield Mosses

Atal Llygredd Hyd yr Eithaf

73. Fe wnaeth Hacathon Teifi a'r Uwchgynhadledd Ansawdd Dŵr dan arweiniad ein Cadeirydd ym mis Mawrth roi llwyfan i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr yng Nghymru. Cafwyd llawer o ymholiadau gan y cyfryngau ar ôl rhyddhau data Monitro Hyd Digwyddiad yn gyhoeddus ar ollyngiadau o orlifiadau storm. Defnyddiwyd Diwrnod Dŵr y Byd yn rhagweithiol i gyhoeddi dau flog am gyflwr dŵr daear Cymru.
74. Mae diddordeb y cyfryngau yn etifeddiaeth mwyngloddiau metel Cymru yn parhau. Mewn ymateb i ymholiad gan y Financial Times ar effeithiau cemegau etifeddol ar iechyd y cyhoedd, fe wnaethom sefydlu sesiwn frifio gyda'r newyddiadurwr i sicrhau eu bod nhw'n deall ein cylch gwaith, a gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Awdurdod Glo, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau ymateb cydlynus. Roedd hyn yn sicrhau bod y gohebydd yn cael ei frifio'n llawn ar feysydd cyfrifoldeb ac yn gallu ysgrifennu erthygl gytbwys.
75. Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i dimau Amgylchedd a Gweithrediadau'r De-orllewin er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am broblemau arogleuon yn Safle Tirlenwi Withyhedge, gan weithio gyda swyddogion yng Nghyngor Sir Penfro ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau dull cydlynol o rannu negeseuon.
76. Cyn cyflwyno rheoliadau ailgylchu newydd yn y gweithle, fe wnaethom gefnogi gweithgareddau cyfathrebu Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at ein rôl yn rheoleiddio'r rheolau newydd.

Cymunedau'n Gallu Gwrthsefyll Newid Hinsawdd

77. I nodi pedair blynedd ers stormydd mis Chwefror, buom yn gweithio gyda Sharp End ITV ar gyfweiliad gyda'n Prif Weithredwr i dynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud ers Storm Dennis a heriau rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol. Roedd hyn wedi'n helpu i ategu negeseuon allweddol am addasu i effeithiau newid hinsawdd a'u lliniaru. Achubwyd ar y cyfle i recordio darn ehangach ymlaen llaw ar waith CNC a blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol.
78. Cyfrannodd y tîm Cyfathrebu at lansiad ymgynghoriad Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren hefyd, gan weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid trawsffiniol i ddatblygu'r dogfennau ymgynghori a negeseuon cysylltiedig.
79. Cyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybudd Llifogydd newydd yr haf hwn, rydym wedi cychwyn ymgyrch i annog cofrestru a hysbysu rhanddeiliaid a chydweithwyr yn llawn. O ganlyniad i'n hasedau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhybuddio a hysbysu am lifogydd, gofynnwyd i ni helpu a chynghori Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon ar eu rhybudd llifogydd nhw a llywio cyfathrebu.

80. Hefyd, fe wnaethom rannu a llywio negeseuon rhybudd am effeithiau posibl llifogydd sy'n deillio o Storm Kathleen ac amodau tywydd garw cyffredinol ddechrau mis Ebrill.

Digidol

81. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ein tudalennau a ffurflenni cais trwydded cwmpo ar eu newydd wedd yn fyw i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer y rheoliadau amaethyddol newydd.
82. Cawsom wahoddiad (gyda Chyfieithwyr) i siarad yn nigwyddiad Materion Iaith y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Chomisiynydd y Gymraeg ac mewn fideo am ysgrifennu 'triawd', dull mwy cydweithredol o ddatblygu cynnwys mewn dwy iaith. Y nod oedd rhannu ein profiadau o ddylunio gwasanaethau dwyieithog gwell trwy gynnwys y cyfieithydd yn rhan o'r broses yn gynnar ac ailadrodd y testun Cymraeg a Saesneg ar y cyd.
83. Rydym wedi gweithio fel rhan o brosiect darganfod ar gyfer ein gwasanaeth trwyddedu Morol hefyd. Roedd yn gyfle gwych i ddod â gwahanol dimau at ei gilydd a gweithio i safonau gwasanaethau digidol Cymru. Fe wnaethom gyflwyno'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o gyfweiliadau defnyddwyr ac ymchwil desg helaeth mewn sesiwn dangos a dweud i gydweithwyr a Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr morol erbyn hyn i gynllunio a chyflawni gwelliannau yn y tymor byr, trwy ailgynllunio tudalennau'r we a ffurflenni cais, gan gynghori ar gyflawniadau tymor canolig a hirdymor hefyd.

Cwsmer

Arolwg Ymddiriedaeth yr Institute of Customer Service

84. Mae CNC wedi gweithio unwaith eto gyda'r Institute of Customer Services (ICS) i gynnal arolwg samplau gyda'r nod o ddeall faint o ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yng Nghymru yn ein sefydliad. Bydd yr arolwg, sy'n arolwg peilot i ni'n hunain ac i'r ICS, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ganfyddiad y cyhoedd o CNC fel sefydliad ac o'n gwaith, a bydd yn ategu'r ddealltwriaeth a gafwyd eisoes o'r arolwg panel blynyddol. Mae'r gweithgareddau meincnodi hyn yn helpu i wneud penderfyniadau a datblygu strategaeth yn ymwneud â phrofiad cwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid ac mae'n ffordd werthfawr i helpu i lunio ein cynhyrchion a'n gwasanaethau wrth symud ymlaen. Bydd yr allbwn llawn o'r arolwg ar gael ym mis Mehefin.

Cyflwyno Canolfan Gyswllt Unedig Anywhere365

85. Yn ystod mis Chwefror, aeth y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau, Desg Wasanaeth TGCh a Hyb Cwsmeriaid yn fyw gyda'n Teleffoni Canolfan Gyswllt Anywhere365 newydd. Rydym wedi bod yn gweithio ar weithredu'r gwasanaeth

ers dros flwyddyn, gan sicrhau ei fod yn darparu profiad o'r radd flaenaf i gwsmeriaid, yn gwella cadernid parhad busnes ac yn cynyddu effeithlonrwydd ar draws ein holl amgylcheddau canolfannau cyswllt. Cawsom broses bontio esmwyth i'r gwasanaeth newydd, heb unrhyw brofiad niweidiol i gwsmeriaid.

86. Mae'r gwasanaeth newydd yn ein galluogi i fonitro ac olrhain nifer y galwadau mewn amser real. Rydym wedi datblygu adroddiadau Power BI i fonitro tueddiadau dros amser a chaniatáu rhagweld a dadansoddi asiantau. Hefyd, gallwn adolygu galwadau, sydd bellach wedi'u recordio, ac rydym yn ceisio cael adborth gan gwsmeriaid ar ddiwedd pob galwad i wella perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid.
87. Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys integreiddio llawn â'n system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (Dynamics365) a'r cyfle i gyflwyno sgwrs fyw a rheoli cyswllt cyfryngau cymdeithasol. Felly, mae hwn yn gam cadarnhaol arall tuag at gyflawni ein gweledigaeth o olwg integredig ar fanylion cwsmeriaid, gan ganiatáu ar gyfer mwy o integreiddio ar draws ein gwasanaethau a'n platfformau a fydd yn rhoi dealltwriaeth well o'n cysylltiadau â chwsmeriaid a phrofiad gwell i gwsmeriaid.

Rhagolwg

Dydd Mawrth 4 Mehefin – Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dydd Mercher 5 Mehefin – Digwyddiad Senedd CNC 2024 (Diwrnod Amgylchedd y Byd)

Dydd Iau 6 Mehefin – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Mercher 12 Mehefin – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Iau 13 Mehefin – Pwyllgor Cyllid

Dydd Gwener 28 Mehefin – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Dydd Iau 11 Gorffennaf – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Mercher 17 Gorffennaf – Cyfarfod Bwrdd Gorffennaf

Dydd Mawrth 18 Gorffennaf – Pwyllgor Ystad Tir

Dydd Mercher 7 Awst – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Llun 22 - Dydd Mercher 24 Gorffennaf – Sioe Fawr Llanelwedd

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B02
Noddir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid – 25 Ebrill 2024

Cefndir

Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2024. Mae'r papur a'r cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ar gael i aelodau'r Bwrdd eu gweld ar Diligent.

Adroddiad Perfformiad Ariannol a Chymeradwyaethau Diwedd y Flwyddyn

- Darparwyd trosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Ariannol Diwedd y Flwyddyn dros dro ynghyd â negeseuon allweddol o adolygiad interim o gyllidebau. Yr arwyddion cynnar oedd bod y gyllideb o fewn y targed.
- Croesawodd FC y newyddion a chydabod y gwaith caled sy'n gysylltiedig â chyflawni cyllidebau mor heriol.
- Cymeradwyodd FC ddau gytundeb adran 83 a thrafododd faint o blannu coed digolledu a blaenoriaethau cystadleuol ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Cymeradwywyd cynnydd yn y costau rhedeg parhaus ar gyfer Achos Busnes Llawn y System Gwybodaeth am Lifogydd.

Diweddariad y Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO)

4. Cyflwynwyd argymhellion adolygiad o Reoli Rhaglen a Phrosiectau a'r model gweithredu targed PMO. Roedd yr argymhellion yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd gan gynnwys rheoli portffolio ac adrodd, sicrwydd, rolau a chyfrifoldebau ac offer rheoli prosiectau. Nododd y Pwyllgor y gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr adroddiad cychwynnol hwn gan y Rheolwr PMO newydd a'r Adroddiad Partneriaethau Lleol ar y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd. Awgrymodd FC y byddai'r gwersi o'r adroddiad hwnnw yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun gweithredu'r PMO.
5. Darparwyd y diweddariad chwe mis safonol hefyd. Holodd FC sut y cafodd prosiectau statws coch eu hadolygu a'u huwchgyfeirio.

Diweddariad Cyllideb a Chynllun Busnes 2024-25

6. Cyflwynwyd y gyllideb agoriadol ar gyfer 2024-25 ynghyd â diweddariadau ar Ymrwymadau'r Cynllun Busnes a'r Canlyniadau Allweddol, a'r ymarfer blaenoriaethu.
7. Rhoddodd FC arweiniad ar y metrigau a holodd am gyfathrebu'r ymarfer blaenoriaethu i staff. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai mabwysiadu ac ymrwymo i'r metrigau ofyn am newid diwylliannol yn y sefydliad i dderbyn targedau coll a methiant canfyddedig i adlewyrchu'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn well.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y papur:	Adroddiad y Bwrdd Rheoli Perygl Llifogydd
Cyfeirnod y papur:	24-05-B03
Noddir y papur gan:	Dr Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y papur gan:	Dr Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar 18 Ebrill 2024

Cefndir

- Mae'r crynodeb hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion y dylid eu dwyn i sylw'r Bwrdd cyfan ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (y Pwyllgor) yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024.
- I gael rhagor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd gael mynediad at agendau, papurau, a chofnodion pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

Diweddariad

Adroddiad a Gweithrediad Partneriaethau Lleol

- Rhoddwyd diweddariad ar y cynllun gweithredu ar gyfer argymhellion Adolygiad Rhaglen Cyfalaf Llifogydd y Bartneriaeth Leol a'r Adroddiad llawn i'r Pwyllgor. Yr argymhellion gan gynnwys y trafodaethau parhaus gyda Nawdd. Fe wnaeth y Pwyllgor nodi'r Adroddiad yn ffurfiol a chymeradwyo'r argymhelliad y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn goruchwyllo'r Prosiect yn ffurfiol, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am agweddau penodol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor drwy eitem sefydlog yr Adroddiad Rheoli Perygl Llifogydd.

Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd (FRRIP)

4. Cyflwynwyd Adroddiadau Pontio a Chau y Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd (FRRIP) i'r Pwyllgor, ynghyd â chrynodeb o sut y byddai'r camau hirdymor sy'n weddill yn cael eu rheoli. Er y byddai'r Prosiect yn cau, byddai'r meysydd gwaith yn cael buddsoddiad a gwelliant parhaus.
5. Caeodd y Pwyllgor y Rhaglen Gweithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd yn ffurfiol ac awgrymu hyrwyddo llwyddiant y Prosiect yn fewnol ac yn allanol.

Adroddiad Diweddarau Rheoli Perygl Llifogydd

6. Cyflwynwyd Adroddiad Diweddarau a amlygodd feysydd gwaith allweddol i'r Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys nodi effeithiau'r gaeaf gwlyb a diweddariad ar waith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW). Nodwyd bod Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) wedi'i ohirio oherwydd cyfnod sefydlu'r Prif Weinidog newydd.
7. Yn dilyn y camau a gofnodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd, cafwyd cyflwyniad ar waith cynnal a chadw arferol mewn ardaloedd gwledig a oedd yn cynnwys pa weithgareddau a gafodd eu cynnwys mewn gwaith cynnal a chadw arferol, a darparwyd esboniad o Fodel Dyrannu Refeniw Seiliedig ar Risg a ddefnyddir i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw arferol.

Diweddariad Rhaglen Gyfalaf Rheoli Risg Llifogydd

8. Darparwyd trosolwg o gyllideb gloi'r Rhaglen Gyfalaf Llifogydd ar gyfer 2023-24. Er iddi fod yn flwyddyn gythryblus, roedd y gyllideb gloi o fewn y targed.
9. Tynnwyd sylw at rywfaint o gyd-destun Rhaglen Gyfalaf 2024-25 gan gynnwys rhai risgiau sylweddol. Roedd cynnig y Rhaglen wedi'i nodi mewn papur a'i rannu gyda'r Pwyllgor.

Achos Busnes Llawn y System Gwybodaeth Rhybudd Llifogydd

10. Darparwyd crynodeb o'r prosiect gan gynnwys amlinelliad o'r costau parhaus a thîm y prosiect. Er bod costau cyflawni'r prosiect wedi aros yr un fath, byddai'r costau rhedeg pum mlynedd yn cynyddu ac yn fwy na throthwyon Rheoli Ein Harian (MoM).
11. Rhoddwyd sicrwydd bod y system wedi'i hintegreiddio â systemau ac offer eraill CNC a chymeradwyodd y Pwyllgor Achos Busnes Llawn y System FWIS.

Unrhyw fater arall

12. Nododd y Cadeirydd y byddai adolygiad strategol o Bwyllgorau'r Bwrdd.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B04
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF
Paratowyd y Papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Amaethyddiaeth
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Crynhof'r ystyriaethau, y penderfyniadau a'r camau yr ydych yn chwilio amdanynt gan y pwyllgor.

Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

- Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau aelodaeth eraill WLMF rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a chydweithio ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\)](#)

Diweddariad

Cyfarfod 11 Mawrth 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Fforwm ar 11 Mawrth 2024.
- Ymunodd Julie Boswell, CNC â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y broses o ddiweddarau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yng Nghymru. Rhoddodd Sue Buckingham a Brian Price, CNC y wybodaeth ddiweddaraf am leihau allyriadau amonia o amaethyddiaeth ger safleoedd gwarchoddedig.
- Cafodd holl aelodau Fforwm gyfle i holi am Ddiweddariadau CNC a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
- Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 24 Mehefin 2024.

6. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan aelodau, fe'u cyhoeddir ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

7. Prif bwrpas Is-grŵp y Fforwm yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru gan gynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddi), a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol amrywiol

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\) ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

Cyfarfod 25 Mawrth 2024

8. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ddydd Llun 25 Mawrth 2024. Roedd un eitem agenda sylweddol lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn arwain y sesiwn ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a thrafod y broses adolygu pedair blynedd a Mesurau Amgen. Crynhodd Llywodraeth Cymru wyth cynnig Mesurau Amgen a thynnu sylw at rai pwyntiau trafod i'r grŵp eu hystyried. Archwiliodd y rhai a oedd yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen Is-grŵp WLMF y dolenni i'w hadroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Rhoddodd y grŵp ehangach adborth a mewnbwn ar y mesurau amgen a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd.
9. Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Llun 22 Ebrill 2024 ei ganslo oherwydd nifer o flaenoriaethau oedd yn cystadlu â'i gilydd. Bydd y grŵp yn ailymgynnull ddydd Llun 20 Mai 2024.
10. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan aelodau, fe'u cyhoeddir ar dudalen Is-grŵp WLMF ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y Papur:	Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) Mawrth 2024
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B05
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru
Paratowyd y Papur gan:	Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd; Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Tîm Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth

Cefndir

- Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid pysgodfeydd a Sefydliadau Anllywodraethol (NGOs) rannu tystiolaeth a chyfluoedd i gydweithio i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar Bysgodfeydd yng Nghymru.
- Cylch gorchwyl y grŵp yw:
 - Cynrychioli'r rhanddeiliaid amrywiol sydd â diddordeb yn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.
 - Darparu cyngor strategol i CNC, sy'n adlewyrchu barn buddiannau pysgodfeydd. Llywio cyngor CNC i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu polisi a strategaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd.
 - Adolygu perfformiad gwaith CNC ar bysgodfeydd a gwaith cysylltiedig i sicrhau bod buddiannau pysgotwyr a physgodfeydd yn cael eglurder bod incwm trwydded gwialen a chyllid arall yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl gorau i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswydd pysgodfeydd statudol CNC.
 - Ystyried effaith ecolegol, biolegol ac economaidd problemau sy'n dod i'r amlwg a rhai newydd sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd.
 - Helpu i ledaenu gwybodaeth gan CNC ac o fannau eraill i fuddiannau pysgota a physgodfeydd.

- f. Rhoi adborth clir gan fuddiannau pysgota a physgodfeydd i CNC a hwyluso darparu gwybodaeth i'r buddiannau hynny.
- g. Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyllid newydd.
- h. Cefnogi sganio gorwelion ar gyfer datblygiadau, cyfleoedd a risgiau newydd a ragwelir, a chodi ymwybyddiaeth o faterion ehangach yn ymwneud â rheoli physgodfeydd dŵr croyw a physgodfeydd mudol, er enghraifft physgodfeydd morol.

Diweddariad

3. Amlinelliad o atebion/ffyrdd ymlaen posibl. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 26 Mawrth 2024
4. **Cylch Gorchwyl Fforwm Physgodfeydd Cymru:** Cafodd y [Cylch Gorchwyl](#) diwygiedig ar gyfer y Grŵp a'r aelodaeth eu hadolygu a'u cyhoeddi ar wefan CNC.
5. **Adar sy'n Bwyta Pysgod - Diweddarau a Gweithredu:** cyflwyniad a thrafodaeth gan Dave Charlesworth, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, ar weithredu'r argymhellion gan y Grŵp Cynghori annibynnol ar Adar sy'n Bwyta Pysgod.

Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect peilot Afon Wysg ar gyfer rheoli ysglyfaethu gan adar sy'n bwyta pysgod. Mae CNC wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Pysgota Wysg a Sefydliad Gwy ac Wysg. Cyflwynodd CNC ddata o dagiau ac olrhain gleisiaid, gan ddangos sut roedd colledion gleisiaid yn llawer uwch mewn llifoedd isel a'u bod yn gysylltiedig â manau cul penodol wrth i'r gleisiaid ymfudo. Roedd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun rheoli a dull o reoli ysglyfaethwyr. Amlygwyd hefyd y defnydd o dechnegau anangheuol, fel bwganod brain awtomataidd a chyfarpar tawel (laser) i ddychryn adar. Bydd gwaith pellach yn cynnwys edrych ar gynefiniad adar sy'n bwyta pysgod i reolaethau anangheuol.

Y Camau Nesaf

- Cyfoeth Naturiol Cymru i ddrafftio adroddiad tystiolaeth i gadw'r hyn a ddysgwyd o brosiect peilot yr afon Wysg.
 - Datblygiad 'tudalen Ianio' newydd Adar sy'n Bwyta Pysgod ar wefan CNC.
 - Gwaith gyda thîm Trwyddedu Rhywogaethau i symleiddio'r broses ar gyfer ceisiadau dalgylch.
 - Dogfennau canllawiau rheoli adar sy'n bwyta pysgod ar gyfer cymwysiadau afonol a dŵr llonydd.
 - Sefydlu fforwm rhithwir ar gyfer rheolwyr physgodfeydd, rhannu arfer gorau, hyrwyddo technegau anangheuol a chefnogi ymgeiswyr yn y broses drwyddedu
6. **Gorchymyn Cyfyngu Rhwydi Dyfrdwy:** Dave Mee Prif Gyngorydd Arbenigol

Gorchymynion Cyfyngu Rhwydi yw'r mecanwaith rheoleiddio i alluogi CNC i bennu a rheoli nifer y trwyddedau pysgota ar gyfer physgodfeydd eogiaid a brithyllod môr cyhoeddus.

Mae Gorchymyn Cyfyngu Rhwydi presennol afon Dyfrdwy wedi'i osod ar ddim trwyddedau a daeth i rym ym mis Mehefin 2015. Mae'n dod i ben yn 2025 a chyn hynny mae angen i CNC benderfynu a ddylid parhau gyda'r Gorchymyn Cyfyngu Rhwydi sero, cynyddu'r trwyddedau i lefel newydd, neu gau'r bysgodfa'n ffurfiol.

Ar ddechrau'r 2000au roedd y stoc dan bwysau cynyddol ac roedd Afon Dyfrdwy yn methu ei Therfyn Cadwraeth yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Felly, yn dilyn adolygiad o Orchymyn Cyfyngu Rhwydi Afon Dyfrdwy yn 2005, cyflwynwyd Gorchymyn *Ileihau* sero ar sail gwarchod eogiaid. Roedd hyn yn golygu, wrth i drwyddedeion rhwydi adael y bysgodfa, na fyddai trwyddedau ychwanegol ar gael i'w dyrannu, gan leihau cyfranogiad yn y bysgodfa i ddim yn y pen draw.

Yn 2005 roedd 13 trwydded rhwydi sâ'n a phedair trwydded rhwydi triphlyg yn weithredol yn y bysgodfa. Yn dilyn hynny, fodd bynnag, trafodwyd a chyllidwyd y bysgodfa yn llawn gan fuddiannau pysgota Dyfrdwy, fel bod nifer y trwyddedau a roddwyd wedi gostwng i sero yn y pysgodfeydd rhwydi triphlyg a rhwydi sâ'n erbyn 2008 a 2009, yn y drefn honno.

O ystyried statws presennol stociau eogiaid, effeithiau newid yn yr hinsawdd a llai o oroesi yn y môr, mae'n annhebygol y bydd stociau eogiaid yn dychwelyd i 'lefelau cynaliadwy' yn y dyfodol rhagweladwy. Felly, mae CNC o'r farn bod dychwelyd rhwydo ar Afon Dyfrdwy yn anghynaliadwy, ac rydym o'r farn ei bod yn briodol cau'r bysgodfa'n llwyr.

Mae CNC yn cynnig datblygu achos technegol ymhellach yn awr a chau'r bysgodfa dan is-ddeddf. Cymeradwywyd y dull hwn gan WFF.

7. **Symposiwm a Gweithdy Sewin y Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd (IFM):** Chris Mills IFM

Cynhaliodd yr IFM, gan weithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Brithyll Gwylt, Wild Fish, ac Ymddiriedolaeth Eogiaid yr Iwerydd, Symposiwm Sewin yng Nghaerdydd fis Medi diwethaf i edrych ar y dystiolaeth ddiweddaraf ar statws a phwysau ar sewin. Cafodd Gweithdy Sewin dilynol ei gynnull ym mis Tachwedd 2023, i ystyried sut i weithredu ar y canfyddiadau hyn.

Ar ôl y Gweithdy, cafodd Grŵp Llywio'r dasg o gynhyrchu Rhaglen Weithredu Sewin er mwyn cyflawni pedwar amcan allweddol:

Amcan1: Codi proffil brithyll a sewin: "Stori Brithyll/Sewin" i helpu mwy o bobl i ddeall arwyddocâd y rhywogaeth hon yn ei rhinwedd ei hun ac fel arwydd o iechyd ein hafonydd.

Amcan 2: Diogelu a gwella stociau sewin mewn dŵr croyw. Byddai hyn yn cynnwys ymarfer mapio i nodi'n fwy manwl ble mae sewin yn silio ac yn cael eu cynhyrchu, fel bod nodweddion cynefinoedd allweddol yn cael eu nodi a'u gwarchod.

Amcan 3: Diogelu a gwella stociau sewin yn y môr. Y man cychwyn ar gyfer hyn fydd cysylltu â'r prosiect SAMARCH (SAlmonid MAnagement Round the CHannel) ac ystyried ei argymhellion.

Amcan 4: Cynnal yr ymchwil angenrheidiol i fynd i'r afael â'r tri allbwn cyntaf.

Nododd WFF y byddai angen i CNC a physgodfeydd a Chyrff Anllywodraethol Cymru chwarae rhan weithredol yn y cynllun, a bod y gwaith hwn yn cyd-fynd ag adfywio Cynllun Gweithredu Eogiaid a Sewin CNC.

8. Prosiectau Adfer Afonydd CNC

Derbyniodd WFF dri diweddariad ar brosiectau sy'n cael eu datblygu gan CNC a fydd yn cyfrannu at adfer cynefinoedd afonydd ac a fydd o fudd i boblogaethau pysgod:

- Cyflwyniad Dalgylch Arddangos Teifi gan Jon Goldsworthy, Rheolwr Tir Cynaliadwy
- Cyflwyniad Prosiect ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) Gwy gan Hilary Forster - Tîm Prosiect Adfer Afon Gwy Uchaf
- Prosiectau LIFE: Cyflwyniad Pedair Afon LIFE a LIFE Afon Dyfrdwy gan Susie Kingham, Arweinydd Tîm Pedair Afon LIFE

9. Papur diweddar WFF: Rhoddodd y papur hwn ddiweddariadau ar broblemau pysgodfeydd cyfredol ledled Cymru. Mae copi o'r papur diweddar ar gael drwy e-bostio Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

- Diweddariad ar werthiant trwyddedau gwialen
- Diweddariad Pysgota yng Nghymru 1 Hydref 2023 tan 1 Mawrth, 2024
- Symposiwm/gweithdy sewin
- Ystadegau salmonid a physgodfeydd ar gyfer Cymru a Lloegr 2022
- Amcangyfrif o ddychwelyd stoc eogiaid yr Iwerydd o gyfradd ecsbloetio gwialen ar gyfer prif afonydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr
- Mynd i'r afael â'r Teifi – mae tîrfeddiannwyr, diwydiannau a rheoleiddwyr yn dod at ei gilydd ar gyfer prosiect peilot 'dalgylch arddangos'.
- Y Llyfrothen Uwchsafn
- Eitemau Newyddion Diweddar
 - Gorchymyn i ddyn o Feifod dalu bron i £1,000 am droseddau pysgota anghyfreithlon.
 - Cwblhau cynllun i roi bywyd newydd i Afon Pelenna.
 - Adroddiad tystiolaeth newydd yn cefnogi ymdrechion i wella ansawdd dŵr afon.
 - Swyddogion gorfodi'n mynd i'r afael â physgota anghyfreithlon yng Ngwent.
 - Patrolau i fynd i'r afael â photsio a throeddau gwledig.
- Thermomedr Dŵr: Pysgota neu beidio â physgota am eog a sewin.

10. Edrych tua'r Dyfodol

Bydd eitemau WFF yn y dyfodol yn cynnwys:

- a. Ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli
- b. Adolygiad Asesu Stoc Eogiaid
- c. Adolygiad o'r cynllun gweithredu eogiaid a sewin.
- d. Strategaeth Pysgodfeydd Wydn i'r Hinsawdd i Gymru.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y Papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF)
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B06
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
Paratowyd y Papur gan:	Ceri Jones, Cyngorydd Arbenigol Arweiniol: Rheoli Dalgylchoedd
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Uchafbwyntiau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024

Cefndir

- Cafodd diweddariad gan Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) ei ddarparu ddiwethaf ym mis Ionawr 2024. Mae'r WWMF yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i sefydliadau aelodaeth y Fforwm rannu tystiolaeth a chyfleoedd i gydweithio er mwyn rheoli dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru - o'r ffynhonnell i'r môr. Yn ogystal â thrafodaeth barhaus ar broblemau a pherfformiad rheoleiddio – er enghraifft mewn perthynas â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 – mae agweddau ehangach ar ansawdd dŵr, llywodraethu dŵr ac adnoddau dŵr yng Nghymru wedi bod yn themâu allweddol.
- Mae WWMF yn archwilio cyfleoedd hefyd i ddatblygu, cefnogi a chyfleu negeseuon ac argymhellion a rennir ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn fwy cyffredinol ochr yn ochr â Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF), Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW) a Grŵp Cyngori a Gweithredu Morol Cymru.

Diweddariad

- Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 14 Mawrth 2024. Dechreuodd y sesiwn gyda chyflwyniad rhyngweithiol ar waith adolygu monitro ansawdd dŵr CNC, cafodd

hwn ei agor yn ehangach i aelodau o WLMF, Is-grŵp WLMF a WFF gan ei fod yn bwnc sydd o ddiddordeb i bob fforwm. Yn dilyn y sesiwn hon, gadawodd aelodau fforymau ehangach y cyfarfod a pharhaodd WWMF gyda materion perthnasol i'r diwrnod. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys: Diweddariad PR24 Hafren Dyfrdwy, rhoddodd CNC y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cynllunio rheoli basn afon gan gynnwys gwahodd adborth gan aelodau ar y papur ychwanegol arfaethedig ar gyfer Cynllunio Rheoli Basn Afon i gefnogi aelodau'n well yn eu rôl i weithredu fel panel Cyswllt Ardal Basn Afon. Rhoddodd Tîm Dŵr Daear CNC gyflwyniad a oedd yn cynnwys cyflwyniad i ddŵr daear Cymru, adnoddau gyda'r rhwydwaith monitro lefelau, ansawdd a'r rhwydwaith monitro ansawdd ac yn olaf y blaenoriaethau yng Nghymru. Yn aml bydd WWMF yn canolbwyntio ar afonydd felly cafodd y sesiwn ar ddŵr daear dderbyniad da.

4. Mae cyfarfod nesaf WWMF wedi'i drefnu ar gyfer 7 Tachwedd 2024. Mae'r rhagolwg ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:
 - Gwaith ar gyfer Prosiect Pedair Afon LIFE
 - Dilyniant i'r adolygiad o'r Fforymau
 - Cynllunio Rheoli Basn Afon – adolygiad o'r cynnydd ar gyfer Cylch 3 a'r ymgynghoriad Cylch 4 Gweithio Gyda'n Gilydd sydd i fod i ddechrau ar 20 Mehefin 2024
 - Aelodau i ddod â phwnc i'r bwrdd
5. Mae nodiadau'r cyfarfod ar gael ar dudalen gwefan CNC ar gyfer WWMF.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y Papur:	Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – Diweddariad
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B07
Noddir y Papur gan:	Geraint Davies, Cadeirydd y Fforwm
Paratowyd y Papur gan:	Carys Drew, Ysgrifenyddiaeth y Fforwm (Cyngorydd Arbenigol: Hawliau Tramwy a rhwydweithiau)
Cyflwynir y Papur gan:	Geraint Davies, Cadeirydd y Fforwm
Diben y Papur	Gwybodaeth

Cefndir

- Fforwm anstatudol yw Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (y Fforwm) sy'n dwyn rhanddeiliaid ynghyd o sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn mynediad awyr agored a hamdden yng Nghymru.
- Prif ddibenion y Fforwm yw:
 - Helpu i wella ansawdd a helaethder mynediad i gefn gwlad ac arfordir Cymru, ac ymestyn y cyfleoedd i fwynhau a hamdden awyr agored cyfrifol i bawb, o ran cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol
 - Gweithio gyda'n gilydd fel rhwydwaith rhanddeiliaid, meithrin dealltwriaeth, a rhannu gwybodaeth ac arferion da; helpu i wireddu manteision hamdden awyr agored a mynediad yng Nghymru
 - Cefnogi CNC yn ei nod o weld mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ac yn elwa ar hynny'n amlach
- Mae CNC yn darparu'r Cadeirydd (Geraint Davies) a'r Ysgrifenyddiaeth (Carys Drew), mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi'i henwebu o blith yr aelodau (Ruth Rourke, Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad). Mae Dr Rosie Plummer, Bwrdd CNC yn cefnogi ac yn mynychu cyfarfodydd hefyd.
- Mae'r Fforwm yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd fforwm yn agored i arsylwyr ac yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ond nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus. Lle bo angen, gall y Cadeirydd sefydlu gweithgorau i ystyried materion penodol a

chyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd dilynol. Ni chynhelir cyfarfodydd gweithgor yn gyhoeddus.

5. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn casglu cyfraniadau ysgrifenedig cyn pob cyfarfod, mae hyn yn rhoi cyfle i aelodau, CNC a Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth fanwl. Cyhoeddir y cyfraniadau ysgrifenedig ar gyfer pob cyfarfod, ynghyd ag agendâu a nodiadau cyfarfod cryno ar wefan CNC: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru](#)

Diweddariad

6. Sefydlodd y Cadeirydd weithgor er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau ystyried Ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd i lywio ymatebion eu sefydliad eu hunain. Cafwyd cyfarfod o'r gweithgor ar 15 Chwefror, dan gadeiryddiaeth Jont Bulbeck, Arweinydd Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored. Cafwyd cynrychiolaeth dda yn y cyfarfod gan amrywiaeth o gynrychiolwyr o holl ddiddordebau sectoraidd y Fforwm. Roedd ffocws y grŵp ar fynediad hamdden yng nghyd-destun y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chylch gwaith y Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Dosbarthwyd nodyn drafft i'r aelodau gyfeirio ato.
7. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Fforwm llawn ar-lein ar 5 Mawrth 2024. Mae holl eitemau'r agenda'n cynnwys amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.
8. Clywodd y Fforwm gan Dawn Thompson, CNC am strategaeth ddrafft *Connecting people with nature on the land in our care: NRW's outdoor recreation strategy*. Roedd y cyflwyniad yn egluro'r strwythur, y weledigaeth, y nodau a'r camau nesaf a dangosodd Dawn sut y cafodd yr arolwg casglu gwybodaeth a'r ymgysylltiad ehangach eu cynnwys hyd yma. Cafodd y strategaeth ddrafft dderbyniad da gyda diddordeb yn y camau nesaf a chyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu lleol a chymunedol, yn enwedig wrth ddatblygu a chymhwyso model parthau.
9. Yna, rhoddodd Jont Bulbeck adborth i'r fforwm am weithgor y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r gweithgor yn rhoi cyfle i sefydliadau rannu barn, meithrin dealltwriaeth a chyflwyno eu hymatebion eu hunain. Nid datblygu ymateb y Fforwm na chytuno ar gyflwyniad yw'r nod. Crynhodd Jont bwyntiau allweddol y drafodaeth a nodwyd yn nodyn y cyfarfod, a thynnu sylw at y pynciau lle'r oedd consensws eang a meysydd lle'r oedd barn sectorau'n amrywio.
10. Dosbarthwyd cyfraniadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod ac anogwyd aelodau i'w hadolygu a chysylltu â chyfranwyr yn uniongyrchol gyda chwestiynau pellach.
11. Gwnaeth Dyfroedd Cymru gais am aelodaeth o'r Fforwm. Oherwydd problemau technegol wrth geisio rhannu gwybodaeth am y sefydliad ymlaen llaw, ni chafwyd safbwynt unfrydol gan y cyfarfod. Felly, mae'r broses ymgeisio am aelodaeth yn dal i fynd rhagddi drwy e-bost.
12. Dyma ddyddiadau arfaethedig cyfarfodydd 2024: 2 Gorffennaf (yn bersonol hybrid), 5 Tachwedd (ar-lein).

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	23 Mai 2024
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Ariannol
Cyfeirnod y Papur:	24-05-B08
Noddir y Papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
Diben y Papur:	Cymeradwyaeth (newid mewn rhagolygon) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
Crynodeb	<p>I gymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £272.8m i £283.8m a ragwelir.</p> <p>I graffu:</p> <p>Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.</p>

Cefndir

- Mae'r Adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y mathau gwahanol o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn perthynas â:
 - Newid yn y rhagolygon o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd a'r gyllideb wreiddiol.
 - Perfformiad hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024, o'i gymharu â'r rhagolwg a gymeradwywyd yn flaenorol a'r gyllideb wreiddiol.
 - Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ers y cyfnod adrodd diwethaf (lonawr).
 - Sylwebaeth drwy eithriad ar yr alldro diwedd blwyddyn yn erbyn rhagolygon ar gyfer y mathau gwahanol o incwm a gwariant.

2. Mae hwn yn safbwynt drafft, gydag adolygiad mwy manwl pellach o wariant cysylltiedig â chodi tâl yn cael ei gynnal ym mis Mai fel rhan o'r broses cyfrifon blynyddol. Nid ydym wedi derbyn y sefyllfa wedi'i chadarnhau gan WEFO hyd yma ar y posibilrwydd o adennill grant ar gyfer prosiect Fframwaith Casglu Data Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – yr ydym wedi'i ddileu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Unwaith y byddwn wedi cadarnhau'r sefyllfa, byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin.
3. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar y sefyllfa ariannol yn ei gyfarfod ddiwedd Ebrillond nid oedd yr Adroddiad llawn hwn ar gael ar y pryd. Felly, gofynnwn i'r Bwrdd gymeradwyo'r newid yn y rhagolwg sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad.

Risgiau a chyfleoedd

4. Mae gennym risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn yn cysylltu hefyd â'r risg strategol "Methiant i sicrhau sefydlogrwydd ariannol". Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae'r risgiau gorwario wedi eu lleddfu diolch i'r camau a gymerwyd gan y Tîm Gweithredol a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
5. Y goblygiadau ehangach yw:
 - (a) **Cyllid:** Mae'r Adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg o fewn Cofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
 - (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

Y camau nesaf

6. Cynhyrchir yr Adroddiad hwn bob deufis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Argymhelliad

7. Y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £272.8m i £283.8m.
8. Y Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.

Mynegai Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**




NRW Board - 23 May 2024 March 24 Finance Report

Content and Key Messages



Update will cover:	Messages:
<p>1. Update on the latest forecast changes from the last reporting period. Forecast changed from £272.8m to £283.8m.</p>	<p>1. Forecast changes during February and March were predominantly linked to additional Grant in Aid allocated. Overall capital and revenue funding increased by £2.7m and £8.3m respectively. Capital included additional funding for flood and other capital works (£4.3m) offset by a reduction of £1.5m linked to the new accounting standard for leases relating to Cathays Park (sub leases between government departments are not regarded as requiring capital cover). Revenue funding was mainly due to EAPF payment (£7m), £2m to manage the timber income volatility, offset by various other changes in expected income - mainly externally funded.</p>
<p>2. Financial Performance as at March 2024.</p>	<p>2. Full year expenditure equated to £280.0m against forecasted spend of £283.8m, representing an underspend of £3.8m. Income equated to £280.4m, £3.4m less than forecast. Overall, a net under spend of £0.4m (0.1%). This is still a draft position, although we do not expect any material change. Any changes will be reported to the Finance Committee.</p>
